# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 14 MAWRTH 2016 am 2 y prynhawn | MONDAY, 14 MARCH, 2016 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL / INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O.Jones, (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Sedd Wag / Vacant Seat

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PHLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a
Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 DATGANIADAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

Derbyn diweddariad gan y Cadeirydd a/neu'r Is-Gadeirydd.

**3 COFNODION CYFARFOD 1 CHWEFROR, 2016** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Chwefror, 2016.

**4 MONITRO'R GYLLIDEB: Y GYLLIDEB REFENIW CH3 2015/16** (Tudalennau 11 - 24)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllieb Refeniw am Chwarter 3 2015/16.

**5 MONITRO'R GYLLIDEB: Y GYLLIDEB GYFALAF CH3 2015/16** (Tudalennau 25 - 34)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf am Chwarter 3 2015/16.

**6 MONITRO PERFFORMIAD : CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH3 2015/16** (Tudalennau 35 - 48)

Cyflwyno'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 3 2015/16.

**7 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 49 - 50)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**8 MONITRO PERFFORMIAD : Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL** (Tudalennau 51 - 60)

Cyflwyno'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**9 BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 61 - 62)

Cyflwyno Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror, 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd R Meirion Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd G O Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Llinos Medi Huws, Victor Hughes, Dylan Rees, Peter S Rogers

**Aelod Cyfetholedig:-**

Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol)

**WRTH LAW:** Y Prif Weithredwr
Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Dysgu
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Sgriwtini (BS)
Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AGD)
Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO)
Rheolwr y Rhaglen Gorfforaethol (GM)
Uwch Reolwr Safonau Ysgolion (BMJ)
Rheolwr Gwasanaeth (Anawsterau Dysgu ac Iechyd Meddwl) (BW)
Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Lewis Davies, Robert Llewelyn Jones,
Y Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr H Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid),
Kenneth P Hughes (Aelod Portffolio Addysg),
Derlwyn Hughes, John Griffith, Alun Mummery (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)
Prif Swyddog, Medrwn Môn

**1. <u>DATGANIADAU O DDIDDORDEB</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## 2. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

Dywedodd y Cynghorydd Ann Griffith wrth y Pwyllgor nad oedd hi wedi mynychu cyfarfod diwethaf y Panel Rhiant Corfforaethol ond y byddai'n rhoi adborth o'r cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws ei bod wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant – un i sefydlu'r Bwrdd a'r llall i edrych ar y rhaglenni gwaith. Cyfeiriodd hefyd at y Byrddau Trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Llyfrgell, Ieuenctid a Diwylliant a nodwyd bod Gwasanaethau Llyfrgelloedd yn cael sylw ar y rhaglen heddiw; roedd Gwasanaethau Ieuenctid ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 2 Chwefror; nid oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer rhoi sylw i Wasanaethau Diwylliant. Dywedodd y Cynghorydd Huws ymhellach nad oedd y Bwrdd Trawsnewid Addysg wedi cyfarfod yn ddiweddar.

Adroddodd y Cadeirydd fod y Grŵp Llywio'r Gyllideb wedi cyfarfod i baratoi ar gyfer y cyfarfod heddiw a nododd ei fod wedi mynychu'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr i gyflwyno adroddiad y Pwyllgor ar Gael Gwared ar Asedau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ann Griffith at y Gwasanaeth Plant a gofynnodd am eglurhad ynghylch a fyddai'n destun sgriwtini gan y Pwyllgor hwn.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Cynllun Gweithredu'n cael ei lunio ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

## 3. COFNODION CYFARFOD 1 RHAGFYR, 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Materion yn codi:-**

**Eitem 5 – Monitro Perfformiad: Rheoli Pobl**

Dywedodd y Cadeirydd y bydd adroddiad ar absenoldeb salwch yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ym mis Medi.

**Eitem 7 – Y Gyllideb: Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2, 2015/16**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ail bwynt ar dudalen 5, sef bod y gwariant mewn perthynas â Datblygu Economaidd yn 102%. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau y byddai'n ceisio eglurhad manwl gan y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

**Eitem 9 – Gwerthusiad Blynyddol AGGCC o Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol 2014/15**

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y trydydd pwynt yn y penderfyniad ar dudalen 6. Dywedodd y byddai adborth o ran y cynnydd a wnaed ar faterion blaenoriaeth a nodwyd gan AGGCC ar gael i'r Pwyllgor hwn yn chwarterol ac yn debygol o gael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd y Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael â materion sy'n codi. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cyflwyno datganiad ar y sefyllfa i'r cyfarfod nesaf.

**GWEITHREDU:**

**Cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, gan gynnwys adborth ar faterion a nodwyd gan AGGCC.**

**4** **<u>GOSOD CYLLIDEB 2016/17: REFENIW A CHYFALAF</u>**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ar y broses ddiwygiedig ar gyfer pennu'r gyllideb a weithredwyd i baratoi ar gyfer cyllideb 2016/17.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini Dro fod y Pwyllgor hwn eisoes wedi ystyried y cynigion cychwynnol ar gyfer y cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ac wedi sgriwtineiddio'r wybodaeth a gyflwynwyd gan y Penaethiaid Gwasanaeth ym mis Tachwedd 2015.

Roedd yr adroddiad dan ystyriaeth yn y cyfarfod hwn yn gyfle i'r Pwyllgor lunio argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad pellach gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2016/17, a oedd hefyd cynnwys datganiad ar y sefyllfa yn y meysydd canlynol: -

i. Cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb
ii. setliad dros dro i Lywodraeth Leol
iii. efyllfa ddiwygiedig cyllideb 2016/17
iv. Dreth Gyngor
v. Cronfeydd wrth gefn
vi. Cyllidebau ysgolion

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn crynhoi negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar, a gwybodaeth a gyflwynwyd gan Reolwr y Rhaglen Gorfforaethol.

Yn ystod y drafodaeth tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol fel meysydd y gofynnwyd i’r swyddogion roi eglurhad arnynt.

• Defnydd o gronfeydd wrth gefn, pwysau ar y gyllideb a lefelau gwarchodaeth i’r dyfodol.
• Lefel yr arbedion i'w gwireddu fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canol ac adolygu'r Cynllun yn y dyfodol, gan gymryd i gyfrif lefelau’r Dreth Gyngor yn y tymor canol.
• Arbedion a ganfuwyd hyd yn hyn a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor o ran cyflawni targedau arbedion yn y dyfodol, sy'n debygol o fod yn fwy sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.
• Lefel y cronfeydd wrth gefn o fewn cyllidebau Addysg, a chyfeiriad at ysgolion mewn diffyg ariannol. Nododd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y byddai angen ailystyried y fformiwla gyfredol.
• Gofynnwyd am eglurhad ar y gweithdrefnau ar gyfer delio â gwargedau yng nghyllidebau ysgolion. Yn ogystal, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y balansau ysgol yn gyffredinol. Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu fod balansau yn y Sector Cynradd dros 7% ar gyfartaledd, a 3% yn y Sector Uwchradd. Wrth symud ymlaen, bydd angen edrych ar y pwysoliad rhwng y ddau Sector.
• Effaith toriadau yng nghyllidebau ysgolion ar Gyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig Ynys Môn a Gwynedd. Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu na fyddai unrhyw doriadau eleni.
• Pwysau ar wasanaethau a arweinir gan y galw a chyllid i fynd i'r afael â risgiau allweddol.
• Gofynnwyd am eglurhad ar y Grant Amddifadedd a'r effaith ar y Gwasanaethau Plant.
• Toriadau yn y Dyfodol i grantiau ysgol a’r goblygiadau i'r Awdurdod.
• Lefel y warchodaeth a roddir i gyllidebau ysgolion.

Canolbwyntiwyd wedyn ar nifer o gwestiynau allweddol a oedd yn sail i drafodaethau’r Pwyllgor a’i sylwadau / argymhellion o dan bob pennawd i'w hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith:-

i. A ddylid sicrhau cymaint ag sy’n bosibl o’r arbedion a nodwyd fel rhai y gellir eu cyflawni yn 2016/17 gan gadw mewn cof y bydd sicrhau’r arbedion mwyaf posibl yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i’r Cyngor ymateb i bwysau ar wasanaethau a gofynion o ran arbedion yn y dyfodol?

**Argymhelliad / Sylwadau**
**Argymell gwneud cymaint â phosibl o’r arbedion a nodwyd fel rhai y gellir eu cyflawni yn 2016/17 er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ymateb i bwysau ar wasanaethau a gofynion am arbedion yn y dyfodol**

ii. A yw’r Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad i’w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, bod swm yn cael ei ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu newidiadau a gynlluniwyd mewn prosesau busnes er mwyn rhyddau rhagor o

arbedion effeithlonrwydd y gellir eu defnyddio i ymateb i wella gwasanaethau neu i gwrdd â'r pwysau arnynt?

**Argymhelliad / Sylwadau**
**Argymell bod swm yn cael ei ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu'r newidiadau yn y prosesau busnes a nodwyd uchod.**

iii. r ba lefel y dylid gosod y Dreth Gyngor yn y dyfodol gan gadw mewn cof y materion a godwyd gan y Pennaeth Adnoddau yn ei adroddiad, y cyfraniad y mae'r Dreth Gyngor yn ei wneud i refeniw cyffredinol y Cyngor a'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn debygol o'u hwynebu o 2017/18 ymlaen?

**Argymhelliad / Sylwadau**

**Argymell cynnydd yn y Dreth Gyngor na fydd yn uwch na 3.5% tra'n cydnabod argaeledd cronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau er mwyn cynnal safonau gwasanaeth.**

iv. a lefel o warchodaeth y dylid ei rhoi i gyllidebau ysgolion gan gadw mewn cof yr angen i ysgolion gyfrannu at yr arbedion cyffredinol sydd eu hangen ar y Cyngor?

**Argymhelliad / Sylwadau**
**Argymell bod lefel o ddiogelwch yn cael ei roi i gyllidebau ysgolion fel rhan o'r strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol.**

v. Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu arbedion effeithlonrwydd i gyllidebau ysgol, gofynnir i'r Pwyllgor wneud sylwadau ynghylch a ddylai lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn y sector cynradd ddylanwadu ar y penderfyniad ynghylch sut bydd yr arbedion yn cael eu dyrannu ar draws y sectorau.

**Argymhelliad / Sylwadau**
**Mewn perthynas â chyllidebau ysgolion yn gyffredinol, argymell bod yna sgôp o fewn y sector cynradd i gyflawni arbedion yn y dyfodol pe bai'r Pwyllgor Gwaith yn gofyn am arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.**

vi. oes gan y Pwyllgor Sgriwtini unrhyw sylwadau pellach ynghylch y gyllideb gyfalaf arfaethedig?

**Argymhelliad / Sylwadau**
**Nid oedd gan y Pwyllgor farn ar y mater hwn**

vii. vii. Sut mae'r cynigion ar gyfer cyllideb 2016/17 yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i
viii. gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r rhaglen drawsnewid? A a oes unrhyw risgiau
ix. penodol?

**Argymhelliad / Sylwadau**
**Argymell bod balansau yn cael eu defnyddio i liniaru risgiau allweddol yn y rhaglen Cynllun Corfforaethol a Thrawsnewid.**

x. viii. Sut mae'r cynigion i arbed yn cael eu hatgyfnerthu gan egwyddorion Strategaeth Effeithlonrwydd y Cyngor?

xi.

xii. **Argymhelliad / Sylwadau**
**Nid oedd gan y Pwyllgor farn ar y mater hwn**

**<u>Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus</u>**

**Mewn perthynas â negeseuon allweddol o'r ymarferiad ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd, PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid derbyn yr adroddiad.**

**5 <u>PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: ARBEDION EFFEITHLONRWYDD</u>**

**Cyflwynwyd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor, adroddiad terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini a oedd yn archwilio ymhellach i'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran cyflawni ei arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2015/16.**

**Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro fod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill, 2015, wrth roddi sylw i Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd (2014/15) wedi penderfynu y dylai panel o Aelodau Sgriwtini barhau i fonitro'r arbedion a gynigiwyd gan wasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon trwy fonitro cyllideb 2015/16 yn chwarterol**

**PENDERFYNWYD:**

**1. Cymeradwyo Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini gyda'i 5 o brif gasgliadau a'i 7 argymhelliad unigol;**
**2. Bod yr Adroddiad Terfynol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror, 2016.**

**6 <u>GWASANAETH IECHYD MEDDWL CYMUNEDOL</u>**

Cyflwynwyd – datganiad ar y sefyllfa gan y Rheolwr Gwasanaeth (Anawsterau Dysgu ac Iechyd Meddwl) ynghylch sut mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol yn edrych heddiw yn Ynys Môn, a sut mae'n gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd ac yn cael ei ddarparu yn y gymuned gan dîm amlddisgyblaethol. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n benodol o dan Fesur Iechyd Meddwl 2012, sy'n gosod y fframwaith ar sut i gael mynediad at y Gwasanaeth.

Pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau:-

- Gwasanaethau acíwt yn Ysbyty Gwynedd;
- Chwythu'r chwiban a chwynion;
- Barn gadarnhaol am Ward Hergest;
- Y broses ar gyfer penodi gweithwyr Cymorth Cymunedol;
- Fel rhan o arbedion y flwyddyn nesaf, beth fydd effaith y 43k sydd wedi cael ei gynnig ar gyfer ailstrwythuro trefniadau rheoli yn y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Cymunedol?

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn derbyn y datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Cymunedol;**
- **Bod y Pwyllgor a swyddog perthnasol yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn ymhen 6 mis;**
- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini'n cymeradwyo'r datblygiadau a gynlluniwyd i'r gwasanaeth hwn.**

**7 <u>SICRHAU GWASANAETHAU CYNALIADWY AC EFFEITHLON AR GYFER Y DYFODOL: TRAWSNEWID LLYFRGELLOEDD</u>**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn adolygu'r ffordd y mae gwasanaethau llyfrgell yn cael eu darparu.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg fod y rhaglen genedlaethol a heriau ariannol yn golygu bod angen i'r Cyngor adolygu'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau, sy'n cynnwys y gwasanaeth llyfrgelloedd yn gorfod gwneud arbedion o rhwng 20% a 60%. Dywedodd fod y Pwyllgor Gwaith wedi caniatáu i'r Gwasanaeth Llyfrgell gynnal adolygiad o fodelau darparu.

Adroddodd y Pennaeth Dysgu fod ymgynghoriad wedi'i gynnal ym mis Hydref a mis Tachwedd y llynedd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwnnw drwy arolwg ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad wedi bod yn arbennig o dda, gyda bron 1500 o drigolion yn cwblhau'r holiadur a llawer o ddiddordeb wedi cael ei ddangos yn y maes. Roedd grwpiau o bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr llyfrgell nodweddiadol wedi cymryd rhan. Roedd angen cynnal yr ymgynghoriad i chwilio am ffyrdd i wneud arbedion yn y gwasanaeth, a rhoddodd gyfle i edrych ar y ffyrdd gorau o ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Nododd y Pennaeth Dysgu fod gan y Cyngor well syniad o'r mathau o fodelau y gall eu cynnig yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad. Cyfeiriodd at yr opsiwn o lyfrgelloedd cymunedol. Mae'r cyhoedd yn awyddus i weld mwy o wasanaethau cyffredinol y Cyngor mewn llyfrgelloedd, yn enwedig modelau sy'n golygu defnyddio gwirfoddolwyr dan arweiniad gweithwyr proffesiynol, i gwrdd â safonau cenedlaethol.

*(Gwnaed datganiadau o ddiddordeb yn yr eitem hon gan y Cynghorwyr R Meirion Jones a Llinos M Huws, gan eu bod wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith sydd wedi esblygu o fewn y Gwasanaeth)*

Cododd yr aelodau'r materion canlynol yn ystod y drafodaeth:-

- Gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaethau;
- Gwneud defnydd o adeiladau cymunedol;
- Mae cefnogaeth fawr i'r llyfrgelloedd yn y gymuned, mae'n golygu mwy na llyfrau a chyfrifiaduron;
- Mae pobl o'r gymuned leol yn barod i weithio gyda chymorth gan weithwyr proffesiynol, ac yn unol â gofynion y Ddeddf;
- Mae trigolion oedrannus yn defnyddio llyfrgelloedd ar gyfer gweithgareddau eraill megis cinio.

Dywedodd yr Aelodau fod staff o fewn y Gwasanaeth yn gadarnhaol iawn ac yn ymroddedig i'r broses ailfodelu ac fe'u canmolwyd am eu gwaith. Teimlwyd nad oedd y toriad o 60% yn gyraeddadwy a byddai'n anodd cwrdd â safonau cenedlaethol.

**PENDERFYNWYD:-**

**a) bod yr Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Llyfrgell yn glodwiw a dylid ystyried mabwysiadu ei fethodoleg yn gyfan gwbl ar gyfer yr holl ymgynghoriadau o'r fath yn y dyfodol;**
**b) Ar ôl ystyried canlyniadau'r Ymgynghoriad, teimlai'r Pwyllgor fod arbedion o 60% yn afrealistig ac nid oedd yn eu croesawu. Cefnogwyd y farn honno gan sylwadau'r Pennaeth Gwasanaethau "y byddai 60% yn ei gwneud yn eithriadol o anodd i gwrdd â'r Safonau Llyfrgell Cenedlaethol statudol." Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Sgriwtini'n cefnogi y dylai'r Gwasanaeth barhau i archwilio a chostio'r modelau posib yn y dyfodol yng nghyd-destun canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, fel yr amlinellwyd yn yr adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgell.**
**c) cefnogaeth i'r cysyniad o lyfrgelloedd sy'n cynnig mwy o wasanaethau o'u hadeiladau cyfredol. Maent yn sylweddoli na fyddai hyn yn debygol o gyflawni arbedion i'r gwasanaeth llyfrgell, ond roedd yn derbyn bod potensial i wneud arbedion corfforaethol yn rhywle arall mewn cydweithrediad â rhaglenni trawsnewid eraill.**
**ch) Cefnogi'r cynigion i ddechrau costio modelau llyfrgell o'r fath.**

**Gweithredu: Rheolwr Sgriwtini i lunio ymateb i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD YSGOLION YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn dadansoddi canlyniadau yn ysgolion Môn ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2014/15.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio’n benodol at fframwaith Estyn ar gyfer arolygu awdurdodau a’r disgwyl i’r agweddau allweddol a ganlyn fod yn destun sgriwtini fel rhan o'r broses hunanwerthuso:-

- Sut mae'r Awdurdod yn perfformio’n erbyn y meincnodau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer CA3 a CA4?
- Sut mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu gyda gweddill yr Awdurdodau yng Nghymru?
- A yw perfformiad yn y pynciau craidd yn debyg?
- Ym mha gyfnod allweddol y mae’r perfformiad ar ei orau? Ym mha agweddau y mae angen gwneud gwelliannau?
- Beth yw dosbarthiad ysgolion ar draws chwarteli cinio am ddim? A yw’r dosbarthiad hwn yn well ynteu’n waeth na'r patrwm cenedlaethol?
- Oes ysgolion yr ymddengys eu bod yn tanberfformio?

Cyflwynwyd gwybodaeth am gategoreiddio a bandiau ysgolion fel a ganlyn:-

4 ysgol yn y band gwyrdd - 3 gynradd ac 1 uwchradd;
29 ysgol yn y band melyn; 13 yn y band ambr; rhai yn y band coch.
13 o ysgolion yn y band ambr eleni, o gymharu â 18 y llynedd – roedd hyn yn siomedig iawn, ond mae cynnydd yn cael ei wneud.

Mewn perthynas â sefyllfa gyffredinol yr Awdurdod ar gyfer 2014/15, mae'r Cyngor yn safle 11 allan o 22 ac nid yw hynny wedi newid ers nifer o flynyddoedd.

Cododd y Pwyllgor y materion canlynol:-

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y trefniadau ar gyfer addysgu plant yn y cartref a holwyd a yw’r Awdurdod yn ymweld â chartrefi. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu ei fod yn ofyniad statudol bod un ymweliad yn cael ei wneud gan Swyddog Addysg i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol.
- Codwyd cwestiwn ar argaeledd prydau ysgol am ddim. Adroddodd y Pennaeth Dysgu bod prydau ysgol am ddim yn cael eu defnyddio fel dangosydd ar gyfer amddifadedd. Os yw teulu’n dod o fewn y categori prydau ysgol am ddim, mae data hanesyddol yn dangos nad ydynt yn perfformio cystal ac nad oes ganddynt, yn aml, gefnogaeth gartref. Mae cyflawni’n fwy o her i blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ac mae rhai plant yn syrthio drwy'r rhwyd.
- Cyfeiriwyd at banel arbennig i blant sy'n derbyn gofal. Awgrymwyd bod y Cyngor yn gofyn am ddadansoddiad o berfformiad y plant hyn, fel y gellir gwneud cymariaethau ar draws Cymru.
- Holodd y Pwyllgor a oedd cydweithio effeithiol ar Ynys Môn rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu bod rhaid mynd i'r afael â’r materion a nodwyd ar frys. Mae cydweithredu ysgol-i-ysgol yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd.

- Trafododd y Pwyllgor yr heriau sy'n wynebu'r Awdurdod mewn perthynas ag ysgolion yn y categori ambr, ac awgrymwyd na ddylid eu caniatáu i fynd i'r categori coch. Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod heriau enfawr i'r ysgolion, ond bod y sefyllfa wedi gwella.
- Nodwyd bod Llywodraethwyr Ysgolion ac uwch reolwyr yn ymweld ag ysgolion i holi sut maent yn gweithredu. Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod modd gwneud cynnydd trwy fewnbwn gan GwE a'r Awdurdod Addysg, a'r ffordd orau i ysgolion i symud ymlaen yw trwy i Aelodau, Llywodraethwyr Ysgolion, rheolwyr, athrawon, swyddogion a rhieni weithio gyda'i gilydd.

- **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. <u>RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL</u>

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor i fis Mai, 2016.

**PENDERFYNWYD nodi'r Flaenraglen Waith hyd at fis Mai, 2016.**

## 10 <u>DATGANIAD AR Y SEFYLLFA – PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI</u>

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ddatganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r Panelau Canlyniad Sgriwtini er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r datganiad ar y sefyllfa.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **14 MAWRTH 2016** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2015/16** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**01248 751865**<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Ym mis Chwefror 2015, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2015/16 gyda gwariant gwasanaeth net o £124.6m i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Cenedlaethol Annomestig a grantiau cyffredinol.

**2.** Roedd y gyllideb ar gyfer 2015/16 yn cynnwys arbedion gofynnol o £4.3m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yn y cyllidebau gwasanaeth unigol ac mae cyflawni neu fethiant i gyflawni'r arbedion hyn wedi'i adlewyrchu yn y tanwariannau / gorwariannau net a ddangosir.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol sy'n ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill, 2015 i 31 Rhagfyr 2015. Crynhoir hefyd y sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn gyffredinol.

**4.** Y sefyllfa ariannol a ragwelir yn gyffredinol ar gyfer 2015/16 yw gorwariant o £390k ar wasanaethau. Mae hyn yn llai nag 1% (0.31%) o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2015/16. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £980k (0.78%) a ragwelwyd yn yr adroddiad chwarter 2. Mae'r eglurhad ar yr amrywiadau sylweddol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â'r rhesymau am y newidiadau ers chwarter 2.

**5.** Mae'r canlyniadau a ragwelir yn cynnwys gorwariant o £476k ar y Gwasanaethau Plant o ganlyniad i orwario ar blant sy'n derbyn gofal. Mae'r galw yn erbyn y gyllideb hon yn anodd i'w reoli gan fod y costau'n ymwneud â gwasanaethau statudol i ddiogelu a hybu lles plant y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt. Gofynnir, felly, i'r Pwyllgor Gwaith ariannu hyn o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor. Os cymeradwyir hynny, byddai gostyngiad cyfatebol yn y canlyniad, er y bydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn gostwng hefyd. Mae'r rhagolwg hefyd yn cynnwys gorwariant o £350k yn y maes Priffyrdd a Thrafnidiaeth yn sgil difrod sylweddol a achoswyd gan y llifogydd a'r stormydd eithriadol sydd wedi taro'r Ynys. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ariannu hyn o Gronfa Yswiriant Wrth Gefn y Cyngor a byddai gwneud hynny dal yn gadael swm digonol ar gyfer risgiau yswiriant eraill (£1.5m ar ôl talu am drwsio'r difrod a achoswyd gan y stormydd). Yn ogystal, dangosir effaith net casglu'r dreth gyngor yn y rhagolwg ar gyfer y chwarter hwn. Rhagwelir y llwyddir i gasglu £153k yn fwy o dreth gyngor nag a ddisgwyliwyd. Fodd bynnag, argymhellir darpariaeth o £213k ar gyfer dyledion drwg mewn perthynas â'r dreth gyngor i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n ddoeth ac yn paratoi ar gyfer y risg na fydd y dreth gyngor yn cael ei thalu. Felly, effaith net y dreth gyngor ar gronfa'r Cyngor yw gorwariant o £60k. Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau y gofynnwyd amdanynt o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y nodir uchod, rhagwelir tanwariant bras o £376k ar ôl cymryd y dreth gyngor a symudiadau o'r cronfeydd wrth gefn i ystyriaeth.

| | | |
|---|---|---|
| **6.** Argymhellir:-<br><br>**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellwyd mewn perthynas â'r perfformiad ariannol hyd yma;<br>**(ii)** Gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyllid o £476k o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor i ariannu'r gorwariant ar y Gwasanaethau Plant;<br>**(iii)** Gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo hyd at £350k o'r Gronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Yswiriant i ariannu cost y difrod a achoswyd gan lifogydd os oes angen;<br>**(iv)** Gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo hyd at £250k o'r Gronfa wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Yswiriant i dalu, fel y bydd angen, i drwsio'r difrod a achoswyd gan stormydd i doeau canolfannau hamdden. | | |
| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
| D/B | | |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae'r P/W yn cymeradwyo'r adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | D/B – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| • Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 3, 2015/16 (gan gynnwys Papur A – tabl o ganlyniadau refeniw a ragwelir am 2015/16) | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Cyllideb Refeniw 2015/16 (fel yr argymhellwyd hi gan y Pwyllgor hwn ar 16 Chwefror 2015 ac fel y mabwysiadwyd hi gan y Cyngor Sir ar 26 Chwefror 2015). | | |

# MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 3 2015/16

## 1. Balans Cyffredinol – y Sefyllfa Agoriadol

**1.1** Arweiniodd y canlyniad dros dro ar gyfer 2014/15 at falansau cyffredinol o £7.5m ar ddechrau'r flwyddyn gyfredol, sy'n sefyllfa iachach nag a ddisgwyliwyd.

## 2. Y cyfnod hyd at ddiwedd Chwarter 3 (y cyfeirir ato fel 'y cyfnod' o hyn ymlaen) – Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion am berfformiad ariannol pob gwasanaeth am y cyfnod a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob un ohonynt i'w gweld yn Atodiad A. Rhagwelir gorwariant net o £410k ar wasanaethau ar 31 Mawrth, 2016. Mae hyn yn well na'r canlyniad tybiedig yr adroddwyd arno yn chwarter 2 a oedd yn rhagweld gorwariant o £980K ar wasanaethau. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100K neu uwch).

| **Crynodeb o amrywiadau a ragwelir ar 31 Mawrth, 2016<br>yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr oedd ar 30 Medi, 2015** | **(Tan) / gorwariant £ 000** |
|---|---:|
| Gofal Cymdeithasol Oedolion | 221 |
| Gofal Cymdeithasol Blant | 476 |
| Tai | (120) |
| Economaidd a Chymuned | 147 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 420 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (444) |
| Rheoli Gwastraff | 100 |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | (248) |
| Adnoddau – heb gynnwys budd-daliadau a roddwyd | 135 |
| Trawsnewid | (122) |
| Adnoddau – budd-daliadau a roddwyd | (338) |
| Targed trawsnewid yr Awdurdod cyfan | 300 |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau sy'n llai na £100k) | (137) |
| (Tanwariant) / gorwariant net | 390 |

## 3. Eglurhad ar yr Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd tanwariant o £16k (llai nag 1%) ar ddiwedd chwarter 3 yn y gwasanaeth hwn. Rhagwelir tanwariant o £62k (llai nag 1%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn well na'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 2, pan rhagwelwyd gorwariant bychan o £7k yn y gwasanaeth. Mae'r gwelliant wedi digwydd oherwydd cynnydd yn y tanwariannau ar leoliadau all-sirol a'r Gwasanaethau Ieuenctid. Mae'r tanwariant a ragwelir yn bennaf o ganlyniad i nifer o danwariannau a gorwariannau bychain. Mae'r gorwariannau mwy yn cynnwys: gorwariant o £126k ar integreiddio – uwchradd; £100k ar Cynnal a £157k ar gludiant ysgol. Mae tanwariannau sylweddol yn cynnwys tanwariant o £242k ar leoliadau all-sirol a thanwariant o £100k ar wasanaethau ieuenctid. Bydd y Pennaeth Dysgu Gydol Oes yn adolygu'r cyllidebau ar gyfer 2016/17 mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio i ail-alinio'r cyllidebau fel sy'n berthnasol rhwng cyllidebau integreiddio a chyllidebau all-sirol.

### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £66k (6.3%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, a ragwelir tanwariant o £2k ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn well na’r gorwariant tybiedig o £5k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Disgwylir gorwariant o £50k ar Amgueddfeydd ac Orielau, sef gostyngiad o £10k o ganlyniad i reoli swyddi gwag. Disgwylir tanwariant o £50k mewn Gwasanaethau Llyfrgell a gellir gosod hwnnw yn erbyn y gorwariant ar Orielau ac Amgueddfeydd.

## 3.2 Cymunedau

### 3.2.1 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1.1** Roedd gorwariant o £134k (0.88%) yn y gwasanaeth hwn yn y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £221k (1%) ar gyfer y flwyddyn yn gyffredinol. Mae hyn yn sylweddol well na’r gorwariant o £505K yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 2. Mae'r gwelliant o ganlyniad i’r ffaith yr amcangyfrifir y bydd llai o arian yn cael ei wario ar Wasanaethau i’r Henoed. Mae camau adferol a gymerwyd i leihau costau yn yr uned ddarparu hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad a ddisgwylir yn y gorwariant.

**3.2.1.2** Mae'r elfennau amrywiol o fewn y canlyniadau ariannol a ragwelir fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau i’r Henoed: rhagweld gorwariant o £4k;
- Anableddau Corfforol (AC): rhagweld tanwariant o £59k;
- Anableddau Dysgu (AD): rhagweld gorwariant o £284k;
- Iechyd Meddwl (IM): rhagweld gorwariant o £214k;
- Uned Ddarparu: rhagweld tanwariant o £146k; a
- Rheoli a Chefnogi: rhagweld tanwariant o £76k.

**3.2.1.3** Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yn y gwasanaethau anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

**3.2.1.4** Mae tua 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn seiliedig ar y galw. Mae gwaith yn mynd rhagddo’n barhaus i geisio rhagweld costau'r gyllideb hon – bydd y gost yn dibynnu ar y galw am y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar ffigyrau ar ddiwedd pob mis am bob lleoliad unigol i oedolion. Yn wir, gall amgylchiadau newid o un wythnos i’r nesaf. Mae hyn yn ei gwneud yn hynod o anodd rhagweld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a gall arwain at amrywiadau mawr o un cyfnod i'r llall. Rheolir y lleoliadau i oedolion drwy baneli sy'n caniatáu i reolwyr ystyried yn fanwl sut y comisiynir lleoliadau. Mae hyn yn sicrhau canlyniad diogel i ddefnyddwyr gwasanaeth ond hefyd y canlyniad mwyaf cost effeithiol i'r Cyngor. Mae adolygiad penodol o Ofal Dydd AD yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Enghraifft o'r pwysau cost ar y gwasanaeth yw'r cynnydd o 1.7% yn y ffioedd ar gyfer lleoliadau preswyl allanol yn 2015/16. Nid oes cyllideb ychwanegol wedi cael ei darparu ar gyfer hyn. Rydym yn amcangyfrif y bydd hyn ar ei ben ei hun yn £150k ar draws y gwasanaeth ar gyfer 2015/16.

**3.2.1.5** Yn ogystal â gostwng costau yn yr uned ddarparu, mae’r gwasanaeth yn ceisio rheoli'r galw trwy fonitro lleoliadau’n ofalus mewn panelau lleoli. Mae'r gwasanaeth yn ceisio sicrhau’r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaethau yn y gwasanaeth mwyaf effeithlon. Fodd bynnag, byddai ymdrechion i gyfyngu mynediad at wasanaethau preswyl, nyrsio, gofal cartref neu ofal dydd ar gyfer y rheini sydd eu hangen yn golygu y byddai’r adran yn torri ei dyletswyddau statudol. Mae'r Gwasanaeth yn rheoli swyddi gwag lle bo'n bosibl er mwyn lleihau gorwariant.

### 3.2.2 Gwasanaethau Plant

**3.2.2.1** Bu gorwariant o £249k (5.1%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £476k (7.1%) am y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn cynnwys gorwariant a ragwelir o £597k ar Blant sy'n Derbyn Gofal. Mae lleoliadau arbenigol cost uchel ychwanegol, gan gynnwys rhai all-sirol, yn cynyddu'r pwysau ar y gyllideb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Erbyn hyn hefyd disgwylir gorwariant o £93k yn y gyllideb ar gyfer comisiynu a gwaith cymdeithasol oherwydd costau staff asiantaeth sy'n llenwi swyddi hanfodol. Mae'r gwasanaeth wedi lleihau costau yn erbyn cyllidebau sy'n haws i'w rheoli i leihau'r gorwariant cyffredinol cymaint â phosibl.

**3.2.2.2** Mae'r UDA wedi rhoi sylw i adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant ynghylch effaith y galw am leoliadau gofal cymdeithasol arbenigol ar y gyllideb. Mae'n gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ryddhau cyllid ychwanegol o'r balansau cyffredinol i ariannu'r costau ychwanegol.

### 3.2.3 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.2.3.1** Roedd tanwariant o £157k (10.4%) yn ystod y cyfnod. Amcangyfrifir y bydd tanwariant o £120k (12%) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn welliant ar y tanwariant o £50k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2. Mae'r tanwariant wedi digwydd oherwydd bod prosiectau diwygio lles a chynghori ar ddyledion wedi dechrau'n hwyrach na'r disgwyl.

**3.2.3.2** Mae'r gwasanaeth wedi edrych ar liniaru'r tanwariant hwn – er bod y tanwariant yn gadarnhaol ar gyfer sefyllfa ariannol y Cyngor yn gyffredinol, mae wedi achosi oedi gyda gweithredu prosiectau diwygio lles allweddol. Nid oes sgôp i ddatblygu'r prosiectau ymhellach cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 3.3 Datblygu Cynaliadwy

### 3.3.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Arforol a Hamdden)

**3.3.1.1** Roedd gorwariant o £95k ar ddiwedd chwarter 3 (4.3%) ar gyfer y Gwasanaeth cyfan. Rhagwelir gorwariant yn y gwasanaeth o £147k (3.67%) erbyn 31 Mawrth, 2016. Mae hyn yn is na'r gorwariant o £151k a ragwelwyd yn chwarter 2.

**3.3.1.2** Rhagwelir tanwariant o £7k yn y gwasanaeth Economaidd erbyn diwedd y flwyddyn. Amcangyfrifwyd y byddai'r gwasanaeth hwn yn sicrhau cyllideb gytbwys yn ystod chwarter 2. Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yw bod y gwasanaeth £56k yn brin o'i darged incwm oherwydd bod cyllid grant wedi dod i ben ac oherwydd materion capasiti yn y tîm Graffeg sy'n gallu derbyn ffî. Fodd bynnag, bydd tanwariant ar gostau cyflogaeth, twristiaeth, cyflenwadau a gwasanaethau yn ariannu'r diffyg incwm.

**3.3.1.3** Disgwylir tanwariant o £1k yn y Gwasanaeth Arforol, sy'n welliant ar y gorwariant o £40k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Mae hyn o ganlyniad i ddenu mwy na'r disgwyl o incwm o'r porthladd yn Amlwch a fydd yn gwrthbwyso incwm is na'r disgwyl o werthu olew arforol ym Mhorthladd Caergybi.

**3.3.1.4** Rhagwelir gorwariant o £155k yn y Gwasanaeth Hamdden. Mae hon yn sefyllfa sydd wedi gwaethygu ers y gorwariant o £111k yr adroddwyd arno yn ystod Chwarter 2. Ers Chwarter 2, bu pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau hamdden oherwydd llai o incwm yn dod i mewn pan oedd Canolfan Hamdden Caergybi wedi cau dros dro oherwydd difrod storm. Disgwylir i ganolfannau hamdden fod yn brin o'u targedau incwm a chael mân orwariannau eraill o £45k . Yn ogystal, disgwylir gorwariant fel a ganlyn ac sy'n debyg i'r rheini yr adroddwyd arnynt yn y chwarter diwethaf: Parciau a chyfleusterau awyr agored £69k oherwydd methiant i gyflawni'r holl arbedion effeithlonrwydd; bydd gorwariant o £37k ar y cwrs golff oherwydd targedau incwm afrealistig. Ni fydd hyn yn parhau ar ôl Gorffennaf 2015 oherwydd bod y cwrs golff wedi ei drosglwyddo i Bartneriaeth Llangefni. Disgwylir gorwariant bychan o £4k ar Ddatblygu Chwaraeon oherwydd taliad diswyddo.

**3.3.1.5** Yn ogystal ag effaith y difrod a achoswyd gan stormydd ar y gallu i ddenu incwm fel y dangosir yn y gorwariant uchod, mae angen gwneud gwaith sydd werth o gwmpas £250k i atgyweirio toeau'r canolfannau hamdden yn dilyn y stormydd difrifol. Felly, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo trosglwyddo arian o'r Gronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Yswiriant i ariannu gwaith hyd at £250k i atgyweirio difrod i'r toeau a achoswyd gan stormydd.

**3.3.2 Priffyrdd**

**3.3.2.1** Roedd tanwariant o £414k (6.1%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a disgwylir gorwariant o £420k (4.5%) erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n waeth na'r gorwariant o £160k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 2.

**3.3.2.2** Mae'r gorwariant yn bennaf oherwydd costau sylweddol a gafwyd o ganlyniad i stormydd a llifogydd eithriadol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant sylweddol (£472k) tuag at y gwaith o atgyweirio difrod a achoswyd gan lifogydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys yr holl gostau a gafwyd yn sgil y stormydd a bydd effaith y llifogydd yn costio oddeutu £350k i'r Cyngor. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo trosglwyddo hyd at £350k o'r Gronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Yswiriant i dalu am y gwaith atgyweirio hwn.

**3.3.2.3** Pe na bai'r stormydd wedi achosi difrod mawr, byddai'r gwasanaeth wedi bod yn adrodd am sefyllfa well yn sgil troi gorwariant o £30k yn danwariant o £20k yn y Gwasanaeth Rheoli Datblygu. Y prif bwysau eraill ar gyllideb y gwasanaeth yw gorwariant ar Reoli Gwaith Cynnal a Chadw (£40k) a bod £50k yn brin o'r targed ar gyfer incwm o feysydd parcio.

**3.3.3 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

**3.3.3.1** Roedd tanwariant o £200k yn y gwasanaeth (11.4%) yn ystod y cyfnod a disgwylir iddo godi i danwariant o £444k (15.49%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant ar y tanwariant o £395k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Mae'r gwelliant hwn yn bennaf oherwydd cynnydd o £40k yn y tanwariant ar ddatblygiadau mawr.

**3.3.3.2** Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau yn y Gwasanaeth Cynllunio yn tanwario ac eithrio Cyflawni Cynllunio Cymru, lle disgwylir gorwariant o £29k a PEG lle rhagwelir gorwariant o £ 35k. Disgwylir gorwariant hefyd o £20k yn y Gwasanaeth Cefn Gwlad a'r Arfordir. Mae llithriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi golygu y bydd tanwariant o £258k ar y CDLl ar gyfer 2015/16.

**3.3.3.3** Mae nifer o danwariannau a gorwariannau bychan yn yr Adran Gwarchod y Cyhoedd sy'n gwneud yn iawn am eu gilydd. Rhagwelir gorwariant o £34k ar y gwasanaeth trwyddedu ond gwrthbwysir hynny gan danwariant o £23k yn y Gwasanaeth Cofrestru ac £8k yn y Gwasanaeth Marchnadoedd.

### 3.3.4 Eiddo

**3.3.4.1** Roedd tanwariant o £165k (15.61%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a disgwylir tanwariant o £74k (12.09%) am y flwyddyn yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn welliant ar y tanwariant o £54k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2. Y gorwariant mwyaf a ddisgwylir yw £60k ar waith argyfwng a gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd. Bydd hyn yn cael ei wrthbwyso gan nifer o fân danwariannau a disgwylir tanwariant o £83k yn erbyn cyllidebau gweithwyr o ganlyniad i reoli swyddi gwag. Mae'r gwasanaeth yn lliniaru ei gorwariannau drwy ariannu'r rhain o feysydd sy'n tanwario.

### 3.3.5 Rheoli Gwastraff

**3.3.5.1** Roedd gorwariant o £142k (2.6%) yn y gwasanaeth hwn erbyn diwedd y cyfnod, gyda gorwariant o £100k (1.4%) yn cael ei ragweld ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn welliant ar y gorwariant o £300k a ragwelwyd yn chwarter 2. Mae'r sefyllfa wedi gwella o ganlyniad i gadarnhad o arian grant cymwys gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gyllideb ar gyfer Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn yn parhau i fod dan bwysau a disgwylir gorwariant o £200k. Bydd £100k o'r swm hwn yn cael ei wrthbwyso gan danwariant amcangyfrifedig yn y Gwasanaeth Gwaredu Gwastraff.

## 3.4 Dirprwy Brif Weithredwr

### 3.4.1 Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill

**3.4.1.1** Roedd tanwariant o £323k (26.54%) yn y gyllideb yn ystod y cyfnod, gyda tanwariant rhagweledig o £248k (9.23%) am y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn welliant ar y tanwariant o £193k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Y prif reswm am y tanwariant yw trosglwyddiad cyfrifeg am swm o £262k o'r fantolen i refeniw sy'n ymwneud â gorddarpariaeth yn y flwyddyn flaenorol. Arian annisgwyl unwaith-ac-am-byth ar gyfer 2015/16 yn unig yw hwn a hebddo byddai'r gwasanaeth wedi gorwario ychydig.

### 3.4.2 Corfforaethol a Democrataidd

**3.4.2.1** Mae gorwariant o £14k (2%) yn y gyllideb hon yn ystod y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £15k (llai nag 1%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Rhagwelwyd gorwariant o £2k yn ystod Chwarter 2. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd gorwariant o thua £6k ar wasanaethau i Aelodau a £7k o ffioedd cyfreithiol nad oedd cyllideb ar eu cyfer.

### 3.4.3 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr

**3.4.3.1** Roedd gorwariant o £46k (6.79%) yn ystod y cyfnod a disgwylir iddo godi i £84k (115%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn bellach yn cynnwys cost y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 Dros Dro, gan fod y swydd hon bellach yn rhan o strwythur yr UDA. Yn ogystal, disgwylir i'r system Sycle (anfonebau CAMMS) roi pwysau ar y gyllideb hon o ganlyniad i £33k o gostau nad oes cyllideb ar eu cyfer. Mae'r System Sycle yn system rheoli perfformiad nad oes cyllideb i roi'r costau yn ei herbyn. Mae'r system hon yn y broses o gael ei dadgomisiynu ond bydd costau hyd at fis Ionawr 2016 yn effeithio ar 2015/16. Mae targed arbedion o £38k ar gyfer y gyllideb hon hefyd ond sy'n ymwneud â'r Awdurdod cyfan. Gosodwyd y targed hwn yn 2013/14 fel targed cyffredinol yn erbyn y gyllideb hon ac mae'n annhebygol y gellir cwrdd ag ef.

### 3.4.4 Adnoddau – Heb gynnwys Budd-daliadau a roddwyd

**3.4.4.1** Roedd gorwariant o £105k (4.72%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £135k (16.92%) am y flwyddyn yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn well na'r gorwariant o £197k a ragwelwyd yn Chwarter 2. Mae pwysau ar y gyllideb yn cynnwys gorwariannau mwyaf sylweddol o £54k ar staff cyfrifyddu gan gynnwys staff asiantaeth; gorwariant o £25k ar daliadau banc ac arbediad i'w ddarganfod o ymarfer tendro. Mae'r tanwariannau mwy sylweddol yn cynnwys £30k o arbedion ar staff caffael a £29k o grantiau annisgwyl.

### 3.4.5 Adnoddau – Budd-daliadau a Roddwyd

**3.4.5.1** Y canlyniad a ragwelir yw tanwariant o £338k (5.71%) sy'n welliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £50k yr adroddwyd arno yn chwarter 2. Mae'r rhagolwg hwn yn cynnwys tanwariant o £550k ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Nid oedd y rhagolygon hyn mewn perthynas â'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gael yn ystod chwarter 2 oherwydd natur ansicr y gwariant ac, felly, amcangyfrifwyd y byddai'r gwir wariant yn unol â'r gyllideb. Mae'r rhagolwg hefyd yn cynnwys y £50k o gostau nad oes modd eu hadennill gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a gynhwyswyd yn chwarter 2. Mae darpariaeth o £162k ar gyfer dyledion drwg ar fudd-daliadau a ordalwyd hefyd wedi'i chynnwys o fewn y rhagolwg hwn.

### 3.4.6 Adnoddau Dynol

**3.4.6.1** Bu gorwariant o £302k (37.84%) yn yr adain yn ystod y cyfnod ond rhagwelir £21k o danwariant am y flwyddyn gyfan. Mae hyn ychydig yn llai na'r tanwariant o £30k yr adroddwyd arno yn Chwarter 2. Mae £281k o orwariant y cyfnod yn ymwneud ag Arfarnu Swyddi, a gofynnwyd am gyllid ar ei gyfer o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r tanwariant yn ganlyniad i gamau adferol drwy reoli swyddi gwag.

### 3.4.7 TGCh

**3.4.7.1** Bu gorwariant o £107k (8.73%) yn y swyddogaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £14k ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y swyddogaeth wedi adrodd yn flaenorol y byddai'n disgwyl gweld cyllideb gytbwys yn Chwarter 2. Mae'r gorwariant amcangyfrifedig oherwydd incwm o £14k na lwyddwyd i'w adennill. Roedd hyn o ganlyniad i anghysondeb cyllidebol a grëwyd yn ystod y broses o osod cyllideb ar gyfer Cyswllt Môn. Bydd angen adolygu hyn wrth bennu cyllideb 2016/17.

### 3.4.8 Cyfreithiol a Phwyllgorau

**3.4.8.1** Roedd tanwariant o £45k (4.22%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd yn £61k (44.53%) erbyn diwedd y flwyddyn. Adroddwyd ar orwariant o £ 37k ar gyfer Chwarter 2. Y prif reswm am y gwelliant yw arian canolog o £47k ar gyfer costau ymgyfreithiad tir sy'n ymwneud â 2014/15 y dylai bod darpariaeth ar ei gyfer y llynedd. Mae yna fân danwariannau hefyd yn y rhan fwyaf o brif feysydd cyllideb y Swyddogaeth.

### 3.4.9 Trawsnewid

**3.4.9.1** Bu tanwariant o £116k (25.33%) yn yr adain yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd yn codi i £122k (18.02%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae'r tanwariant yn ganlyniad i oedi wrth recriwtio i swyddi allweddol o fewn y tîm. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol ar y gorwariant o £170k a ragwelwyd ac adroddwyd arno yn chwarter 2. Mae hyn oherwydd trosglwyddo’r targed arbedion o £300k ar gyfer y cynllun Gweithio’n Gallach o’r gyllideb hon i gyllideb ganolog (o dan Cyllid Corfforaethol) oherwydd bod y prosiectau Gweithio'n Gallach yn ymwneud â gwasanaethau ar draws y Cyngor cyfan ac nid dim ond y tîm trawsnewid.

### 3.4.10 Archwilio

**3.4.10.1** Mae'r adain hon wedi tanwario £31k (15.66%) yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £30k ar 31 Mawrth 2016 oherwydd arbedion o ailstrwythuro. Mae hyn yn welliant ar Chwarter 2 lle rhagwelwyd tanwariant o £20k.

### 3.4.11 Cyllid Corfforaethol

**3.4.11.1** Mae'r pennawd cyllidebol hwn yn cynnwys nifer o feysydd fel incwm buddsoddi, costau ariannu a chynlluniau wrth gefn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi’r cyllidebau hyn. Y gobaith yw y bydd tanwariant yn y maes hwn gan fod y Cyngor wedi benthyca’n fewnol (h.y. defnyddio cronfeydd wrth gefn yn hytrach na benthyca allanol). Unwaith y gellir mesur y tanwariant cyflwynir adroddiad arno. Disgwylir i'r cyllidebau wrth gefn, a oedd yn dod i gyfanswm o £2.124m ar ddechrau'r flwyddyn, fod yn unol â’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfan. Yn ogystal, mae'r gyllideb hon bellach yn cynnwys y targed arbedion £300k dan y cynllun Gweithio’n Gallach. Mae’n annhebygol y gellir cyflawni’r targed hwn yn y pennawd hwn o’r gyllideb. Fodd bynnag, cafwyd arbedion yn sgil gweithio’n gallach ond mae'r rhain wedi cael eu credydu i’r gwasanaethau ac wedi eu hadlewyrchu yn y canlyniad ar gyfer 2015/16.

### 3.5 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

**3.5.1** Mae'r CRT yn disgwyl tanwariant o £500k oherwydd nad yw’r ailstrwythuro yn yr Uned Rheoli Tai wedi ei weithredu’n llawn hyd yma. Roedd hyn i fod i gael ei ariannu o gyllideb hapddigwyddiadau’r CRT nad oes ei hangen ar hyn o bryd. Bydd y gwarged yn aros yn y CRT i barhau â'r ailstrwythuro ac i gyfrannu at leihau dyled. Mae arbedion sylweddol o ran costau is-gontractwr hefyd wedi cyfrannu at y tanwariant hwn.

## 4. Casgliad

**4.1** Mae gwariant refeniw net yr Awdurdod hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2015 a’r rhagolwg o sefyllfa ariannol pob gwasanaeth wedi'u hamlinellu uchod a’u cynnwys ym Mhapur A. Ar hyn o bryd rhagwelir gorwariant o tua £0.390m ar wasanaethau. Gall hyn newid yn y dyfodol o ganlyniad i ddigwyddiadau, galw am wasanaethau a gwybodaeth a allai effeithio ar y rhagolwg. Mae’r canlyniad hwn a ragwelir yn welliant ar y sefyllfa a ragwelwyd yn Chwarter 2 pryd amcangyfrifwyd gorwariant o £0.980m.

**4.2** Mae'r adroddiad yn amlygu bod y gorwariant mwyaf arwyddocaol yn y meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion (£221k); Gofal Cymdeithasol Plant (£476k); Economaidd, Cymuned a Hamdden (£147k); Priffyrdd a Thrafnidiaeth (£420k); Gwastraff (£100k); Adnoddau (£135k) a Chyllid Corfforaethol sy'n cynnwys y targed arbedion o £300k dan y cynllun Gweithio’n Gallach sy’n annhebygol o gael ei gyflawni. Eglurir y rhesymau am y gorwariannau amcangyfrifedig hyn uchod. Mae’r UDA yn monitro'r sefyllfa’n rheolaidd ac yn mynd ati’n rhagweithiol i annog gwasanaethau i gymryd camau cywiro i leihau gorwariant.

**4.3** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo trosglwyddo £476K o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor i ariannu'r gorwariant ar y Gwasanaethau Plant oherwydd y galw sylweddol ar y gyllideb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Os cymeradwyir hynny byddai'r canlyniad cymaint â hynny'n well ond byddai'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn gostwng o £7.5m i tua £7m. Yn ogystal, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith drosglwyddo'r canlynol o'r Gronfa wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Yswiriant : hyd at £350k fel sydd ei angen ar gyfer difrod llifogydd priffyrdd ac yn y dyfodol, £250k tuag at atgyweiriadau yn dilyn difrod stormydd i doeau canolfannau hamdden. Yn ogystal, mae effaith casglu'r dreth gyngor wedi'i chynnwys yn y rhagolwg ac mae gorwariant o £60k oherwydd effaith net y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg o ran casglu'r dreth gyngor. Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo symud arian o'r cronfeydd wrth gefn ac yn cytuno i ymgorffori effaith casglu'r dreth gyngor, byddai'r canlyniad a ragwelir ar gyfer y Cyngor am 2015/16 yn arwain at danwariant bras o tua £376k.

**Atodiad A**

## Chwarter 3 – Amcangyfrif o Berfformiad Ariannol Refeniw 2015/16

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Ch3 | Ch3 Gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig | Ch3 Amrywiad | Ch3 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth, 2016 | Ch3 Amcangyfrif o'r canlyniad ar 31 Mawrth, 2016 | Ch2 Amcangyfrif o'r canlyniad ar 31 Mawrth, 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ '000 | £ '000 | £ '000 | £ '000 | £, 000 | £ '000 | £, 000 |
| | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Cyllidebau a ddirprwywyd i'r Ysgolion | 43,771 | 33,100 | 31,850 | **-** | **43,771** | **-** | - |
| Addysg Ganolog | 8122 | 2,897 | 2,881 | **(16)** | **8,060** | **(62)** | 7 |
| Diwylliant | 1,728 | 1,053 | 986 | **(66)** | **1,726** | **(2)** | 5 |
| | | | | | | | |
| **Cymunedau** | | | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 21,946 | 15,308 | 15,442 | **134** | **22,167** | **221** | 505 |
| Gwasanaethau Plant | 6,673 | 4879 | 5,128 | **249** | **7149** | **476** | 104 |
| Tai | 994 | 1,508 | 1,352 | **(157)** | **874** | **(120)** | (50) |
| | | | | | | | |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | | | |
| Economaidd a Chymune (gan gynnwys y Gwasanaethau Hamdden ac Arforol ) | 4,009 | 2,220 | 2,315 | **95** | **4,156** | **147** | 151 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 9234 | 6769 | 6355 | **(414)** | **9654** | **420** | 160 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,867 | 1,749 | 1,548 | **(200)** | **2,423** | **(444)** | (395) |
| Eiddo | 612 | 1,057 | 892 | **(165)** | **538** | **(74)** | (54) |
| Gwaith y codir amdano | - | 211 | 125 | **(86)** | **-** | **-** | - |
| Rheolaeth Cyfadrannau | 78 | 64 | 56 | **(8)** | **78** | **-** | - |
| Gwastraff | 7067 | 5530 | 5673 | **142** | **7167** | **100** | 300 |
| | | | | | | | |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | | | |
| Corfforaethol - Gwasanaethau Eraill | 2,687 | 1,217 | 895 | **(323)** | **2,439** | **(248)** | (193) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2,233 | 674 | 688 | **14** | **2,248** | **15** | 2 |
| Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr | 73 | 677 | 723 | **46** | **157** | **84** | 34 |
| Adnoddau - Heb gynnwys Budd-daliadau a roddwyd | 798 | 2,226 | 2,331 | **105** | **933** | **135** | 197 |
| Adnoddau - Budd-daliadau a roddwyd | 5,918 | 5989 | 6,022 | **34** | **5580** | **(338)** | 50 |
| Adnoddau Dynol | 199 | 798 | 1,100 | **302** | **178** | **(21)** | (30) |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol | Cyllideb Ch3 | Ch3 Gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig | Ch3 Amrywiad | Ch3 Amcangyfrif o'r gwariant ar 31 Mawrth, 2016 | Ch3 Amcangyfrif o'r canlyniad ar 31 Mawrth, 2016 | Ch2 Amcangyfrif o'r canlyniad ar 31 Mawrth, 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ '000 | £ '000 | £ '000 | £ '000 | £, 000 | £ '000 | £, 000 |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| TGCh | (6) | 1,225 | 1,332 | **107** | **8** | **14** | - |
| Cyfreithiol a Phwyllgorau | 137 | 1,064 | 1,019 | **(45)** | **76** | **(61)** | 37 |
| Trawsnewid | 677 | 458 | 342 | **(116)** | **555** | **(122)** | 170 |
| Archwilio | - | 198 | 166 | **(31)** | **(30)** | **(30)** | (20) |
| Cyllid Corfforaethol | 4827 | 2,073 | (13,042) | **-** | **5,127** | **300** | - |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **124,646** | **92,942** | **76,180** | **(398)** | **125,036** | **390** | **980** |
| | | | | | | | |
| Symud arian o'r cronfeydd wrth gefn i'r gyllideb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – cyllideb a arweinir gan y galw am y gwasanaeth | | | | | | **(476)** | - |
| | | | | | | | |
| **Effaith net casglu'r dreth gyngor** | | | | | | **60** | - |
| | | | | | | | |
| **Trosglwyddo arian o'r Gronfa a Glustnodwyd ar gyfer Yswiriant i ariannu gwaith trwsio priffyrdd ac atal llifogydd yn sgil stormydd** | | | | | | **(350)** | |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor yn 2015/16 ar ôl symud arian o falansau'r Cyngor ac effaith net casglu'r dreth gyngor** | **124,646** | **92,942** | **76,180** | **(398)** | **124,270** | **(376)** | **980** |
| | | | | | | | |
| **ARIENNIR GAN** | | | | | | | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | 21,986 | | | | | | |
| Y Dreth Gyngor | 30,955 | | | | | | |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | 725 | | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 70,980 | | | | | | |
| | **124,646** | | | | | | |
| | | | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **MAWRTH 14, 2016** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB - TRYDYDD CHWARTER 2015/16 - CYFALAF** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH Y GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST.2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

- Argymhellir nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi ystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Cyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth sydd wedi ei dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Dim sylwadau pellach |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | d/b - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau pellach |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - | Atodiadau: |
|---|---|
| | Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3 2015/16<br>Atodiad B - Crynodeb o Wariant y Prosiect Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf, a'r Gwariant Rhagdybiedig ar Ddiwedd y Flwyddyn |
| **FF -** | **Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| | • Cyllideb Gyfalaf 2015/16, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor hwn ar 16 Chwefror 2015;<br>• Rhaglen Buddsoddi Tai Sector Cyhoeddus 2015/16 (fel y cafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 20 Ebrill, 2015 a'i dderbyn ganddo); ac<br>• Adroddiad Monitro Cyfalaf 2015/16 ar gyfer chwarter cyntaf 2015/16.<br>• Adroddiad Monitro Cyfalaf 2015/16 ar gyfer ail chwarter 2015/16 |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol, ac mae'n fodd i Aelodau nodi'r cynnydd yn y Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Chwefror 2015, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai o £ 15.150m ar gyfer 2015/16. Ym mis Ebrill 2015, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai o £8.589m.Roedd £4.029m o ymrwymiadau cyfalaf a ddygwyd ymlaen o 2014/15, ac mae cyllideb a ddygwyd ymlaen ar gyfer y rhaglen mân-ddaliadau, sydd yn ei chweched flwyddyn a'r olaf. Yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2015, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ryddhau cyllid ychwanegol er mwyn cwblhau cynllun Pier Biwmares. Ar ôl gosod y gyllideb, mae'r Cyngor wedi sicrhau arian grant ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol yn 2015/16. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2015/16 i £ 35.595m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2015/16

**2.1** Tabl yn crynhoi'r gwariant i 31 Rhagfyr, 2015

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant a Ymrwymwyd £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % Gwariant ar y Gyllideb a Broffiliwyd | % Gwariant ar y Gyllideb Flynyddol % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 2,583 | 991 | 912 | - | 912 | 92 | 35 |
| CRT Tai | 10,259 | 5,648 | 4,693 | 42 | 4,736 | 84 | 46 |
| Addysg | 10,454 | 2,045 | 1,892 | 139 | 2,031 | 99 | 19 |
| Hamdden | 343 | 198 | 174 | 22 | 196 | 99 | 57 |
| Datblygu Economaidd | 1,822 | 1,538 | 1,388 | 3 | 1,391 | 90 | 76 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 5,902 | 4,057 | 3,109 | 324 | 3,432 | 85 | 58 |
| Rheoli Gwastraff | 119 | - | - | - | - | - | - |
| Eiddo | 1,707 | 1,250 | 1,231 | 16 | 1,248 | 100 | 73 |
| Corfforaethol | 1,561 | 261 | 261 | 352 | 613 | 235 | 39 |
| Cynllunio | 845 | 390 | 333 | 37 | 370 | 95 | 44 |
| **Cyfanswm** | **35,595** | **16,378** | **13,994** | **934** | **14,928** | **91** | **42** |

| | |
|---|---|
| **Ariennir Gan:** | |
| Grantiau Cyfalaf | 15,044 |
| Derbynebion Cyfalaf | 4,646 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 1,159 |
| Benthyca Digefnogaeth | 7,705 |
| Cyfraniad Refeniw | 7,041 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | - |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **35,595** |

**2.2** Roedd 91% o'r gyllideb a broffiliwyd i fod wedi ei gwario hyd at ddiwedd y trydydd chwarter, fodd bynnag, dim ond 42% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi ei gwario hyd yma.Y rheswm am hyn yw y bydd y rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei gwario tuag at chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Mae pryderon gyda chynnydd tri chynllun a all arwain o bosib, at golli arian ac mae'r rhain yn cael eu trafod yn fanylach yn adran 3.1 yr adroddiad hwn. Yn fyr, y rhain yw ysgolion y 21ain Ganrif, lle roedd gwaith a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer yr hydref 2015 wedi llithro oherwydd problemau gyda'r adeilad rhestredig, cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni, sydd wedi bod yn destun oedi oherwydd her bosibl a allai fod wedi arwain at adolygiad barnwrol ac yn olaf, y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid lle nad oes ond 36% o'r gyllideb wedi cael ei wario. Er bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi cael ei broffilio ar gyfer y chwarter olaf, mae pwysau sylweddol i wario'r £ 1.538m sy'n weddill yn ystod y chwarter olaf.

**2.3** Gwariwyd 84% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai, a 46% o'r gyllideb flynyddol. Mae posibilrwydd y bydd llithriad sylweddol oherwydd y tanwariant yn y cynllun adnewyddu a gynlluniwyd, y ffaith nad yw'r gwaith ailfodelu y bwriadwyd ei wneud ar y stoc bresennol wedi cychwyn a'r ffaith bod y Cyngor wedi methu prynu cymaint o eiddo ag a ragwelwyd yn wreiddiol pan gafodd y gyllideb ei gosod.

**2.4** Mae'r rhaglen gwella mân-ddaliadau, a ariennir o'r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd yn benodol o werthu mân-ddaliadau ac o incwm rhent, yn ei chweched blwyddyn. Mae gwariant ar y rhaglen hon yn parhau i fod yn uwch na'r arian sy'n dod i mewn drwy werthu eiddo ac fel incwm rhent. Cafodd diffyg o £1.393m ei ddwyn ymlaen o 2014/15, roedd derbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd y trydydd chwarter yn £1.216m, gyda gwariant o £ 0.833m hyd yma. O ganlyniad, mae'r diffyg yn awr yn £1.010m. Rhagwelir y bydd ychwaneg o fân-ddaliadau'n cael eu gwerthu yn 2015/16 a 2016/17, a bydd yr arian a geir o ganlyniad yn ddigon i dalu am y diffyg presennol.

## 3. CYLLID

### 3.1 Grantiau cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2015/16. Mae rhai cynlluniau sydd eisoes wedi'u cwblhau gyda'r holl Grant wedi cael ei wario, megis y Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg. Mae rhai cynlluniau sydd eto i gychwyn megis y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd gyda chyllideb o £ 0.191m, ond disgwylir y bydd y dyraniad grant hwn wedi cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.1.2** Mae yna dri chynllun sy'n cario risg sylweddol o ran arian Grant Cyfalaf, sef: -

- Prosiect Ysgolion y 21 ain Ganrif - Cyflwynodd Cyngor Sir Ynys Môn ei fatrics gwariant terfynol ym mis Hydref 2015 a oedd yn dangos y byddai £3.904m wedi cael ei wario erbyn 31 Mawrth 2016, gan gynnwys unrhyw wariant a gafwyd yn ystod 2014/15. Mae'r Grant Cyfalaf a geir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn yn cyfateb i £2.752m. Mae Llywodraeth Cymru angen i o leiaf £ 2.752m fod wedi cael ei wario rhwng 01/04/14 a 31/03/16 ar brosiectau Band A Ysgolion y 21ain Ganrif. Hyd yn hyn, dim ond £ 1.631m sydd wedi cael ei wario, diffyg o £1.121m o gymharu â'r targed. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiwygio'r rhagamcanion ac i nodi ffyrdd o wario mwy gyda hynny, gobeithio, yn lleihau'n sylweddol y diffyg gwariant. Er bod targed o £ 3.904m wedi ei osod, nid yw Llywodraeth Cymru ond eisiau i'w dyraniad grant nhw o £2.752m gael ei wario erbyn 31 Mawrth 2016, a gall yr awdurdod wneud i fyny ei gyfraniad arian cyfatebol yn y dyfodol.
- Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP) - y gyllideb ar gyfer 2015/16 yw £ 2.402m. Ar ddiwedd y trydydd chwarter, dim ond £ 0.864m oedd wedi cael ei wario, er, y bydd y rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd yn cael ei gwario tuag at chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Disgwylir y bydd y grant yn cael ei wario yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn, ond o ystyried lefel y gwariant y bydd ei angen yn y chwarter olaf, mae yna risg na fydd modd gwario'n unol â'r lefel ofynnol ac y bydd arian grant yn cael ei golli.
- Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni - y gyllideb ar gyfer 2015/16 yw £2.015m. Fodd bynnag, ar ddiwedd y trydydd chwarter, dim ond £0.198m oedd wedi cael ei wario, £1.817m yn is na'r targed. Mae cynlluniau yn eu lle i wario hyd at £ 1.600m cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adael tanwariant o £0.217m. Er bod posibilrwydd y bydd hyn yn arwain at golli cyllid grant, ystyrir ei bod yn debygol y bydd y Cyngor yn gallu cario'r grant ymlaen i 2016/17. Mae'r prosiect wedi cael ei herio gan drigolion lleol a pherchenogion tir ac roedd posibilrwydd y byddai'n rhaid dal arni hyd oni fyddai canlyniad adolygiad barnwrol wedi dod i law ond mae'n ymddangos bod y materion wedi cael eu datrys ac y bydd y prosiect yn cychwyn yn fuan.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma:-

| | Cyllideb 2015/16 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Rhag-2015 £'000 | Rhagamcaniad hyd at 31-Mawrth-2016 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Tai – CRT:** | | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 170 | 568 | 568 |
| Gwerthu Tir | 0 | 15 | 15 |
| **Tai Sector Preifat:** | | | |
| Gwerthu Plotiau | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau a ad-dalwyd | 0 | 131 | 131 |
| Grantiau a ad-dalwyd | 5 | 10 | 10 |
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 2,739 | 1,216 | 2,011 |
| Cyffredinol | 1,540 | 414 | 680 |
| Diwydiannol | 2 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 190 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 4,646 | 2,354 | 3,415 |

**3.2.2** Mae'r Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2016 yn sylweddol is na'r gyllideb wreiddiol (26%). Mae yna nifer o resymau am hyn, yn gyntaf, y disgwyliad y byddai Cartref Gofal Garreglwyd yn cael ei werthu am £0.550m. Nid aeth y gwerthiant arfaethedig rhagddo ac mae'r Gwasanaeth yn awr yn ystyried opsiynau ar gyfer Garreglwyd a allai yn y pen draw arwain at werthu'r cartref. Mae oedi gyda gwerthu safleoedd eraill yn golygu na fydd disgwyl i £0.915m mewn derbyniadau ddod i law yn awr tan 2016/17. Ychydig iawn o ddiddordeb a gafwyd mewn un safle a oedd ar werth ac a fyddai, fe ragwelwyd, wedi cynhyrchu £ 0.13m mewn derbyniadau cyfalaf. Bydd yr oedi o ran gwerthu eiddo'n arwain at gynnydd mewn derbyniadau cyfalaf yn 2016/17.

**3.2.3** Roedd y gyllideb Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai - Hawl i Brynu, sef £0.170m, yn seiliedig ar werthu 3 eiddo. Hyd yma, gwerthwyd 7 eiddo gyda hynny'n cynhyrchu £0.568m mewn derbyniadau cyfalaf.

**3.2.5** Mae'r gostyngiad yn lefel y derbyniadau cyfalaf yn 2015/16 yn golygu y bydd angen benthyca mwy o arian â chefnogaeth er mwyn cyllido'r rhaglen gyfalaf a dangosir hyn yn nhabl 4.1 (isod).

## 4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN2015/16

**4.1** Tabl yn dangos y gwariant rhagamcanedig ar 31 Mawrth 2016 a'r cyllid diwygiedig

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant Rhagdybiedig £'000 | (Tan) / Gorwariant Rhagdybiedig dros £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 2,583 | 2,442 | -141 | -5 |
| CRT Tai | 10,259 | 6,962 | -3,297 | -32 |
| Addysg | 10,454 | 3,790 | -6,664 | -64 |
| Hamdden | 343 | 364 | 22 | 6 |
| Datblygu Economaidd | 1,822 | 1,821 | -1 | -0 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 5,902 | 5,687 | -215 | -4 |
| Rheoli Gwastraff | 119 | - | -119 | -100 |
| Eiddo | 1,707 | 1,611 | -96 | -6 |
| Corfforaethol | 1,561 | 1,086 | -475 | -30 |
| Cynllunio | 845 | 854 | 9 | 1 |
| **Cyfanswm** | **35,595** | **24,617** | **-10,978** | **-31** |
| **Ariennir gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid Rhagdybiedig £'000** | **Amrywiad** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 15,045 | 12,752 | -2,293 | -15 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 4,646 | 3,415 | -1,231 | -26 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 1,159 | 1,920 | 761 | 66 |
| Benthyca Digefnogaeth | 7,705 | 2,750 | -4,955 | -64 |
| Cyfraniad Refeniw | 7,041 | 3,744 | -3,297 | -47 |
| Cronfeydd wrth gefn | - | 37 | 37 | - |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **35,595** | **24,617** | **-10,978** | **-31** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), rhagwelir tanwariant o £10.978m ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2015/16, gyda'r posibilrwydd y bydd £10.231m o'r swm hwn yn llithro i Raglen Gyfalaf 2016/17. Fel y dywedwyd eisoes, y cynlluniau mwyaf problemus yn y Gronfa Gyffredinol yw Ysgolion 21$^{ain}$ Ganrif a Ffordd Gyswllt Llangefni. Yn ogystal, rhagwelir tanwariant sylweddol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2016/17 a gellir ei dorri i lawr i Grantiau Cyfalaf (£1.576m), Benthyca â Chefnogaeth (£0.587m), Benthyca Di-gefnogaeth (£4.805m) a Chyfraniad Refeniw (£3.263m). Mae hyn wedi cael ei gynnwys wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys gyfer 2016/17.Gellir gweld hyn yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2016/17 yn y tabl yn adran 2.

**4.3** Mae'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2016 yn £130.178m, sef y swm sylfaenol y mae angen i'r awdurdod ei fenthyca i fedru ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae £110.743m yn cael ei fenthyca'n allanol sy'n golygu bod angen i'r awdurdod, i bob pwrpas, fenthyca £ 19.435m naill ai'n fewnol neu'n allanol, i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd yr arian hwn yn cael ei fenthyca'n allanol, bydd yr awdurdod yn dal i fod o fewn ei fod y terfynau benthyca a awdurdodwyd yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD 2 A 3 Y CYNLLUN

**5.1** Cafodd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2016 ac fe'i cyflwynwyd i'w chymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth, 2016. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor mewn perthynas â'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol yn hysbys. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn gofyn am gymeradwyo rhaglen gyfalaf o £26.933m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol o £ 26.933m a chronfa CRT o £11.636m yn 2016/17. Pan gaiff y swm posibl o £10.231m o 2015/16 ei ychwanegu at y rhaglen gynlluniedig hon, bydd cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2016/17 yn £48.800m. Mae'r lefel hon o ymrwymiad wedi cael ei chynnwys yn Natganiad 2016/17 ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (Adran 2).

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant y Prosiect Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf, a'r Gwariant Rhagdybiedig ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£) | % Profiled Budget Spent | % Annual Budget Spent | Gwariant Rhagdybiedig (£) | (Tan) Gorwariant Rhagdybiedig Dros £ | % Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Tai i'w gosod dan y Cynllun Troi Tai'n Gartrefi | 215,000 | 97,890 | 129,908 | 0 | 129,908 | 32,018 | 133 | 60 | 214,098 | -902 | 0 |
| Benthyciad i Wella Cartrefi | 90,000 | 90,000 | 88,945 | 0 | 88,945 | -1,055 | 99 | 99 | 88,945 | -1,055 | -1 |
| Cyllideb heb ei neilltuo ar gyfer Cartrefi mewn Trefi - VVP | 498,820 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 498,820 | 0 | 0 |
| Astudiaeth Dai a Ffioedd VVP | 17,000 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | -5,000 | 0 | 0 | 17,000 | 0 | 0 |
| VVP Grant Tai 1 | 20,000 | 20,000 | 19,963 | 0 | 19,963 | -37 | 100 | 100 | 20,000 | 0 | 0 |
| VVP Grant Tai 2 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 0 | 20,000 | 0 | 100 | 100 | 20,000 | 0 | 0 |
| VVP Grant Tai 3 | 20,000 | 20,000 | 7,266 | 0 | 7,266 | -12,734 | 36 | 36 | 20,000 | 0 | 0 |
| Prynu Drwy Orfodaeth - Cynllun Peilot | 180,000 | 92,000 | 0 | 0 | 0 | -92,000 | 0 | 0 | 140,000 | -40,000 | -22 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 846,000 | 546,000 | 574,203 | 0 | 574,203 | 28,203 | 105 | 68 | 800,000 | -46,000 | -5 |
| Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllideb heb ei neilltuo ar gyfer Cartrefi Newydd - Grantiau VVP | 23,660 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 23,660 | 0 | 0 |
| Cyttir Lane - Tai Cymdeithasol - Grant VVP | 186,900 | 100,000 | 0 | 0 | 0 | -100,000 | 0 | 0 | 186,900 | 0 | 0 |
| Bwlch Alltran VVP | 160,530 | 0 | 72,067 | 0 | 72,067 | 72,067 | 0 | 45 | 160,530 | 0 | 0 |
| Cronfa wrth gefn tai fforddiadwy ddygwyd ymlaen o | 305,070 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 252,000 | -53,070 | -17 |
| **Cyfanswm** | **2,582,980** | **990,890** | **912,352** | **0** | **912,352** | **-78,538** | **92** | **35** | **2,441,953** | **-141,027** | **-5** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 250,000 | 0 | 89,773 | 0 | 89,773 | 89,773 | 0 | 36 | 250,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio | 5,087,000 | 3,450,000 | 3,593,460 | 21,000 | 3,614,460 | 164,460 | 105 | 71 | 4,400,000 | -687,000 | -14 |
| Cerbydau UCA 15/16 | 370,000 | 370,000 | 361,541 | 0 | 361,541 | -8,459 | 98 | 98 | 361,541 | -8,459 | -2 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 200,000 | 56,185 | 6,431 | 62,616 | -137,384 | 31 | 13 | 250,000 | -250,000 | -50 |
| Rheoli Risg Tân | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -250,000 | -100 |
| Ailfodelu'r Stoc Cyfredol | 1,530,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,530,000 | -100 |
| Prynu Eiddo Cyfredol | 1,372,000 | 960,400 | 424,072 | 0 | 424,072 | -536,328 | 44 | 31 | 900,000 | -472,000 | -34 |
| Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus | 150,000 | 105,000 | 99,444 | 14,749 | 114,193 | 9,193 | 109 | 76 | 200,000 | 50,000 | 33 |
| Pecyn Gwaith SATC | 750,000 | 562,500 | 68,916 | 0 | 68,916 | -493,584 | 12 | 9 | 600,000 | -150,000 | -20 |
| **Cyfansymiau ar gyfer: CRT Tai** | **10,259,000** | **5,647,900** | **4,693,391** | **42,180** | **4,735,571** | **-912,329** | **84** | **46** | **6,961,541** | **-3,297,459** | **-32** |
| **Addysg** | | | | | | | | | | | |
| Atgyweirio Toiledau Ysgolion | 198,490 | 198,490 | 198,490 | 0 | 198,490 | 0 | 100 | 100 | 198,490 | 0 | 0 |
| Ailweirio Adeiladau Addysgol | 253,010 | 253,010 | 253,010 | 0 | 253,010 | 0 | 100 | 100 | 253,010 | 0 | 0 |
| Lleihau'r Risg o Dân | 148,800 | 148,800 | 148,800 | 0 | 148,800 | 0 | 100 | 100 | 148,800 | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Canolfan Bro Alaw | 58,843 | 58,843 | 56,152 | 0 | 56,152 | -2,691 | 95 | 95 | 58,843 | 0 | 0 |
| Ysgolion y 21ain Ganrif - -BAND A1 - Caergybi | 5,728,000 | 250,000 | 212,811 | 25,337 | 238,148 | -11,852 | 95 | 4 | 1,995,000 | -3,733,000 | -65 |
| Ysgolion y 21ain Ganrif - Y Llannau | 3,431,000 | 500,000 | 352,861 | 113,312 | 466,173 | -33,827 | 93 | 14 | 500,000 | -2,931,000 | -85 |
| Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg 2014/15 | 441,830 | 441,830 | 441,729 | 0 | 441,729 | -101 | 100 | 100 | 441,830 | 0 | 0 |
| Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg - Llanfawr | 5,000 | 5,000 | 4,277 | 0 | 4,277 | -723 | 86 | 86 | 5,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Dechrau'n Deg Caergybi - Grant VVP | 189,350 | 189,354 | 224,354 | 0 | 224,354 | 35,000 | 118 | 118 | 189,350 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **10,454,323** | **2,045,327** | **1,892,484** | **138,649** | **2,031,133** | **-14,194** | **99** | **19** | **3,790,323** | **-6,664,000** | **-64** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£) | % Profiled Budget Spent | % Annual Budget Spent | Gwariant Rhagdybiedig (£) | (Tan) Gorwariant Rhagdybiedig Dros £ | % Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hamdden** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | 85,000 | 63,750 | 74,714 | 747 | 75,461 | 11,711 | 118 | 89 | 85,000 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | 85,000 | 63,750 | 6,573 | 21,344 | 27,917 | -35,833 | 44 | 33 | 85,000 | 0 | 0 |
| Cyllideb heb ei neilltuo - Cymuned Actif - Grant VVP | 102,210 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 102,210 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Caergybi - Grant VVP | 70,380 | 70,380 | 92,215 | 0 | 92,215 | 21,835 | 131 | 131 | 92,215 | 21,835 | 31 |
| **Cyfanswm** | **342,590** | **197,880** | **173,502** | **22,091** | **195,593** | **-2,287** | **99** | **57** | **364,425** | **21,835** | **6** |
| **Datblygu Economaidd** | | | | | | | | | | | |
| Cyllideb heb ei neilltuo - Swyddi a Busnes - Grant VVP | 109,220 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 109,220 | 0 | 0 |
| Cronfa Buddsoddi mewn Busnes Caergybi - Grant VVP | 145,000 | 75,000 | 72,791 | 0 | 72,791 | -2,209 | 97 | 50 | 145,000 | 0 | 0 |
| Safloedd ac Eiddo (WEFO) Rhan 1 | 780,000 | 780,000 | 779,845 | 0 | 779,845 | -155 | 100 | 100 | 779,845 | -155 | 0 |
| Cyllideb heb ei neilltuo - Cyllid ar gyfer Partneriaethau | 58,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 58,000 | 0 | 0 |
| Toiledau Cyhoeddus | 86,000 | 64,500 | 41,228 | 0 | 41,228 | -23,272 | 64 | 48 | 86,000 | 0 | 0 |
| Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | 320,000 | 320,000 | 318,658 | 0 | 318,658 | -1,342 | 100 | 100 | 318,658 | -1,342 | 0 |
| Toiledau Cemaes | 5,000 | 5,000 | 3,371 | 0 | 3,371 | -1,629 | 67 | 67 | 5,000 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Unedau Penrhos - Grant VVP | 120,000 | 116,494 | 17,835 | 0 | 17,835 | -98,659 | 15 | 15 | 120,000 | 0 | 0 |
| Ehangu HAWFC - Grant VVP | 30,000 | 28,000 | 30,000 | 0 | 30,000 | 2,000 | 107 | 100 | 30,000 | 0 | 0 |
| Caban Kingsland Grant VVP | 50,220 | 47,178 | 47,178 | 0 | 47,178 | 0 | 100 | 94 | 50,220 | 0 | 0 |
| Clwb Gymnasteg Ynys Môn VVP 14/15 | 1,440 | 1,440 | 1,439 | 0 | 1,439 | -1 | 100 | 100 | 1,440 | 0 | 0 |
| Datblygu Cymuned Actif - Grant VVP | 47,900 | 30,790 | 20,101 | 2,800 | 22,901 | -7,889 | 74 | 48 | 47,900 | 0 | 0 |
| Canolfan Gymuned Kingsland - Grant VVP | 69,360 | 69,357 | 55,627 | 0 | 55,627 | -13,730 | 80 | 80 | 69,360 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,822,140** | **1,537,759** | **1,388,073** | **2,800** | **1,390,873** | **-146,886** | **90** | **76** | **1,820,643** | **-1,497** | **0** |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Gwella Stryd y Farchnad - Grant VVP | 15,840 | 15,840 | 5,700 | 1,300 | 7,000 | -8,840 | 44 | 44 | 15,840 | 0 | 0 |
| Meysydd Parcio | 45,300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 45,300 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 537,450 | 537,450 | 297,022 | 307,992 | 605,014 | 67,564 | 113 | 113 | 537,450 | 0 | 0 |
| Menter Benthyca Darbodus y Cyngor Sir | 2,000,000 | 1,850,000 | 1,820,794 | 0 | 1,820,794 | -29,206 | 98 | 91 | 2,000,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LIC) | 900,000 | 675,000 | 771,800 | 0 | 771,800 | 96,800 | 114 | 86 | 900,000 | 0 | 0 |
| Arwyddion i Ymwelwyr a Mesuryddion Parcio VVP | 18,240 | 18,240 | 6,023 | 0 | 6,023 | -12,217 | 33 | 33 | 18,240 | 0 | 0 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 2,015,000 | 922,328 | 184,557 | 13,169 | 197,726 | -724,602 | 21 | 10 | 1,800,000 | -215,000 | -11 |
| Mapio Teithio Llesol | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 0 | 0 |
| SRIC 15/16 | 174,000 | 38,000 | 22,724 | 1,100 | 23,824 | -14,176 | 63 | 14 | 174,000 | 0 | 0 |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 191,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 191,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5,901,830** | **4,056,858** | **3,108,620** | **323,561** | **3,432,181** | **-624,677** | **85** | **58** | **5,686,830** | **-215,000** | **-4** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Compownd ar gyfer Cynwysyddion Gwastraff | 118,520 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -118,520 | -100 |
| **Cyfanswm** | **118,520** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **-118,520** | **0** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£) | % Profiled Budget Spent | % Annual Budget Spent | Gwariant Rhagdybiedig (£) | (Tan) Gorwariant Rhagdybiedig Dros £ | % Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Gwaith Rheoli Risg ar Adeiladau | 122,570 | 116,499 | 96,085 | 0 | 96,085 | -20,414 | 82 | 78 | 122,570 | 0 | 0 |
| Doc Pysgod Caergybi | 96,340 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -96,340 | -100 |
| Mynwent Llanbedrgoch | 105,740 | 20,000 | 20,057 | 0 | 20,057 | 57 | 100 | 19 | 105,740 | 0 | 0 |
| Pier Biwmares | 270,328 | 270,328 | 270,328 | 0 | 270,328 | 0 | 100 | 100 | 270,328 | 0 | 0 |
| Mynwent Llanddona | 112,370 | 43,000 | 25,827 | 1,930 | 27,757 | -15,243 | 65 | 25 | 112,370 | 0 | 0 |
| Mân-ddaliadau | 1,000,000 | 800,000 | 819,033 | 14,250 | 833,283 | 33,283 | 104 | 83 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,707,348** | **1,249,827** | **1,231,330** | **16,180** | **1,247,510** | **-2,317** | **100** | **73** | **1,611,008** | **-96,340** | **-6** |
| **Corfforaethol** | | | | | | | | | | | |
| Gweithio'n Gallach - Cyfalaf | 1,125,000 | 0 | 172,120 | 105,874 | 277,994 | 277,994 | 0 | 25 | 750,000 | -375,000 | -33 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer y Strategaeth TGCh | 23,960 | 0 | 0 | 38,960 | 38,960 | 38,960 | 0 | 163 | 23,960 | 0 | 0 |
| System Wrth Gefn TG | 150,000 | 0 | 0 | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 0 | 33 | 50,000 | -100,000 | -67 |
| TG - Microsoft Exchange | 21,830 | 21,830 | 0 | 21,830 | 21,830 | 0 | 100 | 100 | 21,830 | 0 | 0 |
| TG - T 3 COMM REFRESH | 50,000 | 50,000 | 0 | 50,000 | 50,000 | 0 | 100 | 100 | 50,000 | 0 | 0 |
| System Wrth Gefn TG Ychwanegol | 20,000 | 20,000 | 0 | 20,000 | 20,000 | 0 | 100 | 100 | 20,000 | 0 | 0 |
| ITG - Gosod Serfwyr Newydd yn lle rhai 2003 | 100,000 | 100,000 | 35,000 | 65,000 | 100,000 | 0 | 100 | 100 | 100,000 | 0 | 0 |
| TG - Darpariaeth ar gyfer Microsoft ac ORACLE LICE | 15,210 | 15,210 | 0 | 0 | 0 | -15,210 | 0 | 0 | 15,210 | 0 | 0 |
| TG - Uwchraddio CMS | 15,000 | 14,218 | 14,218 | 0 | 14,218 | 0 | 100 | 95 | 15,000 | 0 | 0 |
| TG - Gwella'r Isadeiledd | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 0 | 40,000 | 0 | 100 | 100 | 40,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,561,000** | **261,258** | **261,338** | **351,664** | **613,002** | **351,744** | **235** | **39** | **1,086,000** | **-475,000** | **-30** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| HLF | 350,000 | 230,000 | 229,059 | 0 | 229,059 | -941 | 100 | 65 | 350,000 | 0 | 0 |
| Astudiaeth Parc y Morglawdd - VVP | 10,000 | 10,000 | 10,952 | 0 | 10,952 | 952 | 110 | 110 | 10,000 | 0 | 0 |
| Cyllideb heb ei neilltuo - Hyb Neuadd y Farchnad - Grant VVP | 9,290 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9,290 | 0 | 0 |
| Astudiaeth Neuadd y Farchnad - Grant VVP | 80,710 | 61,072 | 54,406 | 7,255 | 61,661 | 589 | 101 | 76 | 80,710 | 0 | 0 |
| Ffioedd Datblygu VVP THI Cam 2 | 59,000 | 44,250 | 38,751 | 29,477 | 68,228 | 23,978 | 154 | 116 | 68,228 | 9,228 | 16 |
| Gweithredu Cam 2 THIn | 336,000 | 44,948 | 0 | 0 | 0 | -44,948 | 0 | 0 | 336,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **845,000** | **390,270** | **333,168** | **36,732** | **369,900** | **-20,370** | **95** | **44** | **854,228** | **9,228** | **1** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **35,594,731** | **16,377,969** | **13,994,258** | **933,857** | **14,928,115** | **-1,449,854** | **91** | **42** | **24,616,951** | **-10,977,780** | **-31** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH / PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **14 Mawrth 2015** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2015/16)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Dyma'r trydydd cerdyn sgorio ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

**1.2** Mae'n dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu hamlinellu a'u cytuno rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth/y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**1.3.1** Rheoli Pobl – parhau i sefydlu'n gadarn brosesau ac arferion rheoli da pellach o ran absenoldeb salwch gan ganolbwyntio ar achosion salwch tymor hir y gellir dylanwadu arnynt, sicrhau gwelliant o ran cynnal Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb o fewn yr amser gofynnol er mwyn gwella ymhellach ein cyfraddau salwch, costau a rheolaeth fel Cyngor.

**1.3.2** Rheolaeth Ariannol – trwy'r UDA, nodi sylwadau a thrafodaeth ynghylch materion ariannol o'r adroddiad cyllid ar gyfer Ch3 a drafodwyd yn y cyfarfod hwn.

**1.3.3** Rheoli Perfformiad - cydnabyddir tanberfformiad yn erbyn dangosyddion ac fe reolir hynny trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliannau yn ystod Ch4.

**1.3.4** Gwasanaeth Cwsmer – parhau i weithio ar y cynllun gweithredu mewn ymateb i Adroddiadau'r Ombwdsmon.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| d/b |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae'r mater hwn yn un a ddirprwyir i'r Pwyllgor Gwaith. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd hyn gan yr UDA yn eu cyfarfod ar 16 Chwefror ac mae eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3, 2015/16 a'r Cerdyn Sgorio |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2015/16 – Chwarter 2 (fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2015 a'i gymeradwyo ganddo). |

**ATODIAD A: ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2015/16)**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o amcanion y Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau bod gennym ddull o dystiolaethu a chyflwyno gwelliant parhaus ar draws y sefydliad. I'r perwyl hwn, llunnir adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos y cynnydd a wnaed.

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i nodi a rhoi gwybod i arweinwyr y Cyngor am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn eglur weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sy'n cynorthwyo i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

**1.3** Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio gan adlewyrchu'r newidiadau hynny a wnaed i systemau ac arferion traddodiadol yn y Cyngor. Penderfynwyd ar y dangosyddion a gafodd eu cynnwys yn y cerdyn sgorio eleni (fel y llynedd) trwy broses o ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Penaethiaid, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.4** Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch3 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth.


## 2. YSTYRIAETHAU

**2.1** Dyma'r drydedd flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn dull cydlynol. Mae'r Cyngor yn awr yn gweld tueddiadau yn sefydlu eu hunain mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA/Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar gyflawniad gweithredol.

### 2.2 RHEOLI POBL


**2.2.1** O ran Rheoli Absenoldeb, gwelwyd gwelliant bychan (3.07 diwrnod o salwch fesul ALlC) mewn perfformiad yn Ch3 o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15 (3.21 diwrnod o salwch fesul ALlC). Fodd bynnag, roedd cyfraddau salwch ar gyfer y cyfnod Ebrill – Rhagfyr yn parhau i fod yn waeth o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15 (8.33 diwrnod o salwch fesul ALlC).

**2.2.2** Mae hyn, ynghyd â'r tanberfformiad yn hanner cyntaf y flwyddyn yn golygu ein bod yn debygol o daro 11.73 diwrnod o salwch fesul ALlC eleni (Tabl 1) ac y byddwn o'r herwydd 1.73 diwrnod o salwch fesul ALlC dros ein targed o 10 niwrnod o salwch fesul ALlC. Mae hyn yn ddirywiad o 0.2 diwrnod mewn perfformiad yn seiliedig ar ffigyrau 14/15.




Tabl 1

**2.2.3** Mae dadansoddiad o’r data cysylltiedig yn dangos mai un o’r prif resymau am beidio â chyrraedd ein targed corfforaethol o 7.5 diwrnod o salwch fesul ALIC ar gyfer Ch3 oedd oherwydd cyfraddau Salwch Tymor Hir sy’n parhau i fod yn uchel. Yn ystod Ch3, collwyd oddeutu 3,800 o ddyddiau gwaith oherwydd salwch tymor hir (gweler tabl 2 isod).





Tabl 2

**2.2.4** Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod y gwaith a wnaed yn ystod Ch a Ch3 i wella cyfraddau salwch tymor hir wedi arwain, am y tro cyntaf eleni, at welliant o gymharu â 2014/15, er bod angen gwella ymhellach i gyrraedd perfformiad 2013/14.

**2.2.5** Credir hefyd y bydd y gwaith gwella hwn yn arwain at welliant mewn cyfraddau Salwch Tymor Hir ar gyfer Ch4 ac i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

**2.2.6** Gwelwyd gwelliant bychan yn ein cyfraddau salwch tymor byr ar gyfer Chwarter 3 (3318 diwrnod) o gymharu â'r un cyfnod llynedd (3370 diwrnod). Mae hyn yn dangos fod yr argymhellion a wnaed ac a weithredwyd er mwyn mynd i'r afael â salwch tymor byr yn parhau i arwain at welliant. (Tabl 3).





Tabl 3

**2.2.7** Er bod hwn yn gam cadarnhaol yn y cyfeiriad iawn ar gyfer salwch tymor byr, mae'r darlun mawr yn dangos perfformiad gwael o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol a gweddill yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac y bydd ein perfformiad yn parhau i fod yn y chwartel isaf ac efallai'n golygu bod ein safle'n disgyn eto.

**2.2.8** Yn ystod Ch3, gweithredodd Penaethiaid Gwasanaeth y Cyngor opsiynau y cytunwyd arnynt i wella Salwch Tymor Hir, gan ganolbwyntio ar yr achosion hynny o Salwch Tymor Hir y gellir dylanwadu arnynt yn unol â'n Polisi Rheoli Absenoldeb. Mae'r gwaith eisoes wedi arwain at welliant a disgwylir y parheir i gael tystiolaeth o'r gwelliannau hyn yn ystod Ch3 a Ch4.

**2.2.9** Mae 'rheoli' salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth y staff gyda pholisïau salwch corfforaethol yn rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor ac mae hynny'n cynnwys y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith *(dangosydd 5 ar y cerdyn sgorio).*

**2.2.10** Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r arferion gweithio hyn yn gadarn ar draws ei wasanaethau ac yn ôl dadansoddiad o'r data, ymddengys nad oes newid erbyn hyn o ran nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith (CDG) sy'n cael eu cynnal o fewn 5 niwrnod gwaith (Tabl 4).




Tabl 4

**2.2.11** Gwnaed rhagor o waith yn ystod Ch3 o ran sicrhau bod y Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) yn cael eu cwblhau. Hyd yma, mae 243 aelod o staff wedi taro'r sbardun ar gyfer CAP.

**2.2.12** Mae'r UDA yn argymell felly -

- Parhau i wreiddio prosesau ac arferion rheolaeth dda mewn perthynas â rheoli salwch gan ganolbwyntio ar achosion tymor hir y gellir eu dylanwadu a gwelliant o ran cynnal CAP o fewn yr amserlen er mwyn gwella ein cyfraddau salwch ymhellach, gostwng costau a gwella rheolaeth fel Cyngor.

**2.2.13** Mae'r '% o staff sydd â Thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)' (eitem 14 yn y rhan rheoli pobl) bellach yn cynnwys yr holl wasanaethau ac, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd gan 98% o'r staff DBS ac mae'r 2% sy'n weddill yn y broses o ymgeisio am DBS.

## 2.3 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.3.1** Ar y cyfan, rhagwelir gorwariant o £390K ar wasanaethau yn 2015/16 sy'n llai na 1% (0.31%) o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2015/16. Mae'r rhagamcan hwn yn well na'r sefyllfa yr adroddwyd arni yn chwarter 2 pryd rhagwelwyd gorwariant o £980K (0.78%).

**2.3.2** Mae'r alldro a ragwelir yn cynnwys gorwariant o £476K ar Wasanaethau Plant a hynny o ganlyniad i orwariant o ran plant sy'n derbyn gofal. Mae'r galw yn erbyn y gyllideb yn anodd ei reoli oherwydd mae'r costau'n gysylltiedig â gwasanaethau statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd yng ngofal yr awdurdod. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gyllido hyn o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor. Os bydd hyn cael ei gymeradwyo, bydd yr alldro'n gostwng gan y swm hwn ond bydd gostyngiad hefyd yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor.

**2.3.3** Yn ychwanegol at hyn, dangosir effaith net casglu'r Dreth Gyngor yn y rhagamcan ar gyfer y chwarter hwn. Rhagwelir y bydd £153K yn fwy na'r disgwyl yn cael ei gasglu. Fodd bynnag, argymhellir darparu swm o £213K ar gyfer dyledion drwg ar y Dreth Gyngor er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn ddarbodus ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer y risg o ddiffyg o ran talu'r Dreth Gyngor. O'r herwydd, mae effaith net y Dreth Gyngor ar gronfa'r Gyngor yn orwariant o £60K.

**2.3.4** Os bydd y gorwariant yn y Gwasanaethau Plant yn cael ei gyllido o'r arian wrth gefn cyffredinol, rhagwelir y bydd yr alldro rhagdybiedig, ar ôl cymryd y Dreth Gyngor i ystyriaeth, yn danwariant o £26K.

**2.3.5** Mae'r UDA yn argymell:-

- Bod y sefyllfa a nodwyd o ran y perfformiad ariannol hyd yma, y diffyg a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn a'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i hyn, yn cael eu nodi

## 2.4 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.4.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad wedi ei newid ar gyfer 2015/16 i ddangos perfformiad yn erbyn dangosyddion y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Mae'r isod yn darparu naratif yn erbyn yr heriau a'r egni sydd raid wrthynt i lwyddo ymhellach yn 2015/16.

**2.4.2** Ar ddiwedd Ch3, rydym yn nodi bod 3 o ddangosyddion yn GOCH o gymharu â'u targedau blynyddol am y flwyddyn a bod 8 o ddangosyddion yn AMBR.

**2.4.3** Mae un dangosydd o fewn y <u>Gwasanaethau Oedolion</u> yn parhau i fod yn GOCH ar y cerdyn sgorio o Ch2 –

(i) 03 - LI/018b - *% o ofalwyr ar gyfer Oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac sydd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn*. Mae hyn yn dangos yn **AMBER** ar y cerdyn. Mae'r canlyniad ar gyfer Ch3 (86.3%) yn is na'r targed o 93%. Fodd bynnag, mae'n well na'r perfformiad yn Ch2 sef 77.9% ac yn dangos hefyd bod y camau lliniaru o Gerdyn Sgorio Ch2 yn gwneud gwahaniaeth. Ers Ebrill, roedd 443 wedi gofyn am asesiad neu'n disgwyl am adolygiad ac aseswyd 382 o'r rhain ac mae 61yn disgwyl am asesiad neu adolygiad.

***Camau lliniaru*** **–** mae rhestr o adolygiadau ac asesiadau sydd angen sylw yn ogystal ag adolygiadau Ch4 wedi cael ei throsglwyddo i'r tîm gofalwyr ar gyfer gweithredu arni yn Ch4. Hefyd, cynhaliwyd adolygiad mewnol o'r data a gedwir yn y system gofalwyr sy'n golygu y bydd unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r dinasyddion yn cael eu diweddaru ar y systemau gofalwyr yn brydlon.

**2.4.4** Mae tri dangosydd o fewn y <u>Gwasanaethau Plant</u> yn **AMBR** –

(i) SCC/002 – Yn ystod y flwyddyn, y ganran o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi gorfod newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y cyfnod y maent yn derbyn gofal a hynny am resymau nad ydynt i'w priodoli i drefniadau

trosiannol – Ch2 16.18%, Targed – 15% **AMBR**. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 16.67% yn Ch2 a drafodwyd hefyd yn yr Adroddiad ar Gerdyn Sgorio Ch2.

Mae'r gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod ein plant sy'n derbyn gofal yn gallu parhau i dderbyn addysg yn eu hysgolion cyfredol pryd bynnag y mae hynny'n bosibl. Weithiau, mae'n well i blentyn newid ysgol na theithio milltiroedd i ysgol bob bore a phrynhawn; fodd bynnag, cyn gwneud penderfyniad i newid ysgol ai peidio, edrychir ar holl agweddau cadarnhaol a negyddol newid o'r fath. Felly, mae'n anodd iawn glynu wrth y DP hwn oherwydd amgylchiadau, dymuniadau a gofynion unigryw pob plentyn. Yn y cyfnod hyd at ddiwedd Ch3, symudodd 10 o blant i ysgolion newydd ac roedd 8 o'r achosion hyn yn cydymffurfio gyda chynlluniau sefydlogrwydd y plant tra bod y gweddill wedi symud i ysgolion preswyl.

(ii) SCC/025 - *y % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau Ch3* – 86.54% **AMBR**. Mae hyn yn ddirywiad ar y perfformiad o 90.52% yn Ch2.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 30% ers Ebrill 2015, o'r herwydd, mae nifer o ymweliadau wedi bod yn hwyr oherwydd y cynnydd yn y galw. Yn anffodus, mae'r adnoddau o fewn y gwasanaeth wedi ei chael hi'n anodd cwrdd â'r targedau. Gwnaed y sefyllfa'n waeth oherwydd salwch ymysg y staff.

***Y Camau lliniaru*** ar gyfer gwella'r safonau hyn ar gyfer Ch3 yw:

- Adolygu capasiti'r tîm FIT oherwydd cynnydd yn y galw. Bydd Rheolydd y Gwasanaeth a'r Tîm yn parhau i roi sylw i hyn.
- Rheoli gwyliau blynyddol/absenoldeb salwch yn barhaus trwy'r gweithdrefnau a'r polisïau corfforaethol a chofnodi diweddariadau misol.
- Parhau i ddefnyddio'r system dracio bob wythnos a sefydlu system i sicrhau bod ymweliadau'n parhau i gael eu cynnal pan fo staff ar eu gwyliau neu'n absennol oherwydd salwch.

(iii) SCC/041a: Canran y plant cymwys, perthnasol a blaenorol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl y gofyn; Ch3 – 79.17%, Targed – 90%, **AMBR**. Mae hyn yn is o gymharu â pherfformiad o 86.36% yn Ch2 pan oedd yn WYRDD ar y Cardyn Sgorio.
Mae tri o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal wedi gwrthod yn lân i dderbyn gwasanaeth, o'r herwydd, ni fu modd cynllunio neu greu cynllun llwybr ar eu cyfer. Dim camau lliniaru wedi eu nodi.

(iv) SCC/043a: Y % o asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd cyn pen 35 diwrnod gwaith; Ch3 – 76.29, Targed 85 - **AMBR**. Mae hyn ychydig yn uwch na'r perfformiad o 75.81% yn ystod Ch2 lle cafodd ei drafod yn yr Adroddiad ar Gerdyn Sgorio Ch2.

Mae nifer ein plant sydd dan Gynllun Amddiffyn Plant wedi cynyddu 100% ers mis Ebrill, felly mae nifer yr asesiadau craidd yr oedd angen eu cynnal hefyd wedi codi. Yn anffodus, mae'r adnoddau yn y gwasanaeth wedi cael anhawster cyrraedd y targedau. Mae salwch ymysg staff wedi ychwanegu at y broblem.

**Camau lliniaru** – i wella'r safonau hyn yn ystod Ch4, parheir i wneud yr isod:

- Rheolwyr Tîm i atgoffa staff o'r amserlenni perthnasol, cynnal trafodaethau adlewyrchol gydag aelodau unigol o staff a diweddaru'r system dracio.

**2.4.5** Mae dau ddangosydd yn yr Adran Ddysgu'n dangos tanberfformiad –

(i) 18 – LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn yn AMBER ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 214k o ddeunyddiau a roddwyd allan o gymharu â'r targed o 225k.

Mae'r deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn is na'r targed ac ychydig yn is na ffigyrau 2014/15 ond mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi gosod targed uchel (uwch na pherfformiad y llynedd) fel mecanwaith ar gyfer sicrhau gwelliant. Mae hyn yn heriol yn wyneb y realiti o safbwynt economaidd a staffio. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys e-adnoddau sydd ar gynnydd.

***Camau Lliniaru*** - er mwyn sicrhau gwelliant o ran rhannu deunyddiau yn Ch4, bydd y gwasanaeth yn -

- Parhau i hyrwyddo darllen a benthyca drwy ymgysylltu mewn Gweithgareddau Datblygu Darllenwyr.

(ii) 13 – Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 155.5 o ddyddiau wedi eu colli o gymharu â'r targed blynyddol o 94 diwrnod a gollwyd.

Mae sawl achos dwys wedi codi mewn 2 ysgol benodol dros y cyfnod. Mae'r Swyddog Addysg wedi cynnal sesiwn codi ymwybyddiaeth gyda'r ddau ysgol ac wedi rhoi adnoddau ychwanegol, sef amser athro arbenigol i'r ddau ysgol.

***Camau Lliniaru** – er mwyn sicrhau gwelliant yn Ch4*

- Bydd y Swyddog Addysg yn ymweld a'r ysgolion fel dilyniant o'r sesiwn codi ymwybyddiaeth

**2.4.6** Roedd un dangosydd yn yr Adran Adfywio Economaidd a Chymunedol yn dangos tanberfformiad yn Ch3 o gymharu â Ch2 –

(i) 19 – LCS/002b – *Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol* – mae'n dangos yn **GOCH** ar y cerdyn sgorio. Y canlyniad oedd 324k yn erbyn targed o 383k.

Mae nifer y cyfranogwyr yn is na'r disgwyl, fodd bynnag, gosododd y gwasanaeth darged heriol ar ddechrau'r flwyddyn. Mae tywydd garw hefyd wedi cael effaith ar ffigyrau Cyfranogiad yn y Canolfannau Hamdden yn ystod Ch3. Gwnaed difrod i Ganolfannau Hamdden Amlwch, Caergybi a Llangefni yn ystod y tywydd mawr yn Ch3.

***Camau Lliniaru*** – gweithredir yr isod yn ystod Ch4:

- Disgwylir y bydd nifer y cyfranogwyr yn y Canolfannau Hamdden wedi cynyddu erbyn diwedd Ch4 oherwydd cynnig dosbarthiadau newydd a Phecynnau Debyd Uniongyrchol.

**2.4.7** Roedd pedwar o ddangosyddion yn y Gwasanaethau Tai yn dangos tanberfformiad -

(i) 20 - % o denantiaid yn fodlon gyda gwaith trwsio ymatebol; Ch3 - 88.5%, Targed 92%; **AMBR**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi hyfforddiant i'r holl weithwyr ar gwblhau Holiaduron Boddhad Cwsmer. Yn ychwanegol at hyn, mae'r oedi gyda symud o Vodafone i EE wedi effeithio cysylltedd deinamig ar gyfer trosglwyddo data'n gywir sy'n golygu y bydd cofnodiadau o bosib, ym mynd ar goll. Mae'r tueddiad o ran y DP ar i fyny a dylai'r tueddiad hwn barhau yn ystod Ch4 2015/16.

***Camau lliniaru*** – Cynhelir adolygiad o ddychweliadau'r holl weithwyr a bydd Sgyrsiau 'Bocs Tŵls' pellach yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei gofnodi'n gywir.

(ii) 21 - Nifer y tasgau trwsio tai ar gyfartaledd a gwblheir fesul gweithiwr fesul diwrnod; Ch3 - 3.2, Targed - 6; **COCH**
&
(iii) 22 – Cynhyrchiant y gweithlu - % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol; Ch3 – 71.8%, Targed – 75%; **AMBR**

Mae'r fformat ar gyfer nodi nifer y tasgau a gwblhawyd wrthi'n cael ei adolygu oherwydd mae archebion gwaith ar gyfer eiddo gwag a thasgau amlsgiliedig o ddydd i ddydd dan y Rhestr Brisiau yn cael eu cyfrif fel tasgau unigol yn y clandriad ar gyfer y DP. Yn ychwanegol at hyn, nid yw archebion gwaith ar gyfer tasgau gwasanaethu cylchol yn cael eu cynnwys yn y swm ar gyfer y DP. Bydd angen elfen o addasu maniwal.

Mae angen i'r holl weithwyr gael hyfforddiant ar y defnydd cywir o'r dyfeisiau symudol sy'n cael eu defnyddio er mwyn gwella'r cofnod ynghylch gweithgareddau a amserir. Yn ychwanegol at hyn, mae'r oedi gyda symud o Vodafone i EE wedi effeithio cysylltedd deinamig ar gyfer trosglwyddo data'n gywir sy'n golygu y bydd cofnodiadau o bosib, ym mynd ar goll.

**Camau lliniaru –** Bydd angen cynnwys Rhestr Gyfraddau yn y system casglu data ar gyfer cofnodiadau'r dyfodol. Dylid gweld gwelliant pellach yn Ch4.

**(iii)** Nifer y dyddiau calendr a gymer ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd i'w gosod): Ch3 – 38.4, Targed – 25; **COCH**

Gwelwyd gwelliant o ran nifer y dyddiau a gymer i osod eiddo. Mae proses newydd bellach wedi ei sefydlu ac yn cael ei gweithredu ac yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i weld tueddiad lle mae eiddo'n cael eu gwrthod am resymau personol a'r amser a gymer i weithio drwy'r rhestr aros am dai.

***Lliniaru*** – er mwyn gwella hyn yn Chwarter 4, bwriedir gwneud yr isod –

- Adolygu'r holl ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer a chyfweld yr ymgeiswyr. Bydd yr adolygiad hwn yn gwella ansawdd y data sydd gennym ar hyn o bryd ac yn fodd i'r gwasanaeth ddeall ei sail cwsmeriaid yn well.

## 2.5 GWASANAETH CWSMER

**2.5.1** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 45 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch3 a 2 o Gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebwyd i'r cyfan o'r cwynion ac o'r rhain, cadarnhawyd 10 ohonynt yn llawn, 5 yn rhannol a gwrthodwyd y 30 a oedd yn weddill.

**2.5.2** Yn ystod Ch3, cadarnhaodd yr Ombwdmon 2 o gwynion a wnaed ynghylch y Gwasanaethau Plant. Derbyniwyd 2 adroddiad gan yr Ombwdsmon ym mis Hydref a chytunodd yr Adran ar 2 Gynllun Gweithredu'n seiliedig ar yr argymhellion yn y ddau adroddiad. Cwblhawyd un cynllun gweithredu yn ystod Ch2 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar y llall.

**2.5.3** Mae'r UDA yn argymell –

- Parhau i weithredu'r cynlluniau gweithredu mewn ymateb i adroddiad yr Ombwdsmon

**2.5.4** Cofnodwyd 63 o bryderon rhwng Ebrill a Medi ac o'r rhain, roedd 33 yn ymwneud â Rheoli Gwastraff, 11 â Chynllunio, 11 ag Adnoddau, 5 â Hamdden, 2 â Thai ac un â Phriffyrdd. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon mewn perthynas â Rheoli Gwastraff yn ymwneud â galwadau ffôn yn mynd heb eu hateb oherwydd prinder staff.

**2.5.5** Yn yr Adroddiad ar Gerdyn Sgorio Ch2, argymhellodd yr UDA "adolygiad o Wasanaethau Cwsmer yr Adain Rheoli Gwastraff yn ystod Ch3 er mwyn canfod pam fod nifer uchel o bryderon a hefyd i ddod o hyd i atebion addas i'r materion sy'n effeithio ar ei 'berfformiad cyfredol'." Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn ystod Ch3 ac mae trafodaethau cadarnhaol yn mynd rhagddynt mewn perthynas â rhai o'r atebion a nodwyd yn yr adolygiad.

**2.5.6** O ran y % o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen angenrheidiol, roedd perfformiad yn 63.5% ar ddiwedd Ch3 o gymharu â 65% yn yr un cyfnod yn 2014/15. Dylid nodi bod hyn yn parhau i fod gryn dipyn yn is na'r targed o 80%.

**2.5.7** Cafodd y Cyngor 605 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng Ebrill a Rhagfyr ac roedd angen ymateb i 1951 o gwestiynau o fewn yr amserlen. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r 655 o geisiadau a 3122 o gwestiynau yr oedd angen ymateb iddynt yn ystod yr un cyfnod yn 2014/15.

**2.5.8** Yn ystod Ch2, cynhaliodd y Grŵp Tenantiaid sy'n Archwilwyr (GTA) archwiliad o'r Cyngor fel rhan o'r Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer. Nod yr ymarfer siopwr cudd oedd sicrhau bod yr holl wasanaethau yn y cyngor yn glynu wrth y Siarter Gofal Cwsmer.

**2.5.9** Cyflwynodd y Grŵp Tenantiaid sy'n Archwilwyr adroddiad i'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer ym mis Tachwedd ac mae'r Bwrdd wedi derbyn yr argymhellion ac wedi cytuno ar broses i weithredu ar yr argymhellion hynny.

**2.5.10** Yn ystod Ch3, sefydlwyd proses yn y gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y modd yr ydym yn ymateb i lythyrau yn broffesiynol ac yn cael ei hefelychu ar hyd a lled y Cyngor. Caiff yr argymhellion eraill eu gweithredu yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf fel rhan o'r prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**3.1.1** Rheoli Pobl – parhau i sefydlu'n gadarn brosesau ac arferion rheoli da pellach o ran absenoldeb salwch gan ganolbwyntio ar achosion salwch tymor hir y gellir dylanwadu arnynt i sicrhau gwelliant o ran cynnal Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb o fewn yr amser gofynnol er mwyn gwella ymhellach ein cyfraddau salwch, costau a rheolaeth fel Cyngor.

**3.1.2** Rheolaeth Ariannol – trwy'r UDA, nodi sylwadau a thrafodaeth ynghylch materion ariannol o'r adroddiad cyllid ar gyfer Ch3 a drafodwyd yn y cyfarfod hwn.

**3.1.3** Rheoli Perfformiad - cydnabyddir tanberfformiad yn erbyn dangosyddion ac fe reolir hynny trwy gymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliannau yn ystod Ch4.

**3.1.4** Mae'r UDA yn argymell – Bod y cynllun gweithredu mewn ymateb i Adroddiadau'r Ombwdsmon yn parhau i gael ei weithredu.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Corporate Scorecard C-Q3

| Gofal Cwsmer / Customer Service | Canlyniad / Actual | Targed / Target | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | 45 | 49 | Gwyrdd / Green | → | 65 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | 4 | - | - | - | - |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | 15 | - | - | - | - |
| 04) % y Cwynion a cydnabwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | 100% | 100% | Gwyrdd / Green | → | 100% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod | 72% | 80% | Ambr / Amber | ↓ | 100% |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | 63 | - | - | - | 71 |
| 07) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | 38 | - | - | - | - |
| 08) Nifer yr atgyfeiriadau Ombwdsmon a gadarnhawyd | 2 | 4 | Gwyrdd / Green | → | - |
| 09) Nifer o ganmoliaethau | 580 | - | - | - | - |
| 10) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | 63.5% | 80% | Coch / Red | ↓ | - |
| 11) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | 605 | - | - | - | - |
| 12) Cyfartaledd caniadau a gymeryd i ateb y ffôn (1 Caniad = 3 Eiliad) | 3 | 5 | Gwyrdd / Green | → | - |
| 13) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb | 12% | 15% | Gwyrdd / Green | → | - |
| 14) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd - Ch2) | 67% | - | - | - | - |
| 15) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd - Ch2) | 100% | - | - | - | - |
| 16) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd - Ch2) | 77% | - | - | - | - |
| 17) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd - Ch2) | 90% | - | - | - | - |

| People Management | Canlyniad / Actual | Targed / Target | CAG / RAG | Tuedd / Trend | 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | 8.4 | 7.5 | Coch / Red | ↑ | 11.53 |
| 02) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | 3.41 | - | - | - | - |
| 03) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | 4.99 | - | - | - | - |
| 04) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | 84% | 80% | Gwyrdd / Green | ↓ | 85% |
| 05) % o salwch sy'n gysylltiedig â straen | 8% | 9% | Gwyrdd / Green | → | 5% |
| 06) Nifer y gweithwyr sydd wedi taro pwyntiau meini prawf sy'n gofyn am Gyfarfod Adolygu Phresenoldeb (CAP) | - | - | - | - | - |
| 07) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 2321 | - | - | - | 2336 |
| 08) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 1310 | - | - | - | 1362 |
| 09) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen | 76% | 80% | Ambr / Amber | ↑ | 53% |
| 10) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | 6% | - | - | - | - |
| 11) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol a ddiswyddwyd (gorfodol) | 13 | - | - | - | - |
| 12) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol a ddiswyddwyd (gwirfodol) | 5 | - | - | - | - |
| 13) Nifer o staff Asiantaeth | 22 | - | - | → | 21 |
| 14) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | 98% | - | Gwyrdd / Green | ↓ | - |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | Gwariant / Spend (£) | Amrywiant / Variance (%) | CAG / RAG | Tuedd / Trend | 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir | £124,620,000 | 0.00% | Gwyrdd / Green | - | - |
| 02) Amrywiad yn y Gyllideb ar gyfer Talu Cyflogau hyd yma yn y Flwyddyn | £603,786 | 1.87% | Coch / Red | - | - |
| 03) % y Gyllideb a wariwyd ar Gyflogau | - | 39.60% | - | - | - |
| 04) Cost staff asiantaeth | £718,283 | | Coch / Red | - | - |
| 05) Cost gwasanaethau ymgynghorol | £1,637,877 | | Ambr / Amber | - | - |
| 06) Cost ddamcaniaethol absenoldeb salwch | £1,711,590 | - | Coch / Red | - | - |
| 07) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol (Trawsnewid) | £338,853 | 10.73% | Coch / Red | - | - |
| 08) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol (Gwasanaethau Plant) | £249,112 | 5.11% | Coch / Red | - | - |
| 09) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol (Adfywio Economaidd a | £95,083 | 4.28% | Gwyrdd / Green | - | - |
| 10) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd (Adnoddau) | -£70,000 | 86.42% | - | - | - |
| 11) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd (Gwasanaethau Plant) | -£116,000 | 63.04% | - | - | - |
| 12) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd (Gwasanaethau Oedolion) | -£80,000 | 19.66% | - | - | - |
| 13) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) (Tai) | £1,025,885 | 39.75% | Coch / Red | - | - |
| 14) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) (Adnoddau) | £38,602 | 31.03% | Coch / Red | - | - |
| 15) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) (Gwasanaethau Plant) | £75,961 | 19.67% | Coch / Red | - | - |
| 16) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | 98.8% | - | - | - | - |
| 17) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | 98.7% | - | - | - | - |
| 18) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | 97.0% | - | - | - | - |
| 19) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | 97.5% | - | - | - | - |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | Canlyniad / Actual | Targed / Target | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad 14/15 Result | Canlyniad 13/14 Result | Chwartel 14/15 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | 20.52 | 22 | Gwyrdd / Green | ↑ | 22 | 23.28 | Isaf / Lower |
| 02) SCA/018a: Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | 92.3 | 93 | Gwyrdd / Green | ↓ | 93 | 92.87 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 03) LI/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn | 86.2 | 93 | Ambr / Amber | ↑ | 93 | | - |
| 04) SCA/018c: Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a dderbyniodd asesiad neu ail asesiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn, ac sydd wedi | 96.3 | 96 | Gwyrdd / Green | ↓ | 96 | 96 | - |
| 05) SCA/019: % y cyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi cael ei reoli | 91.8 | 90 | Gwyrdd / Green | ↓ | 90 | 91.92 | Isaf / Lower |
| 06) SCC/002: Yn ystod y flwyddyn, canran y plant a oedd mewn gofal ar 31 Mawrth, sydd wedi profi newid ysgol unwaith neu fwy, yn ystod y cyfnodau o fod mewn gofal, pan nad oedd hynny oherwydd trefniadau trosglwyddo | 16.18 | 15 | Ambr / Amber | ↑ | 15 | 18.5 | Isaf / Lower |
| 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 86.54 | 100 | Ambr / Amber | ↓ | 100 | 93.53 | Upper |
| 08) SCC/041a: Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a oedd gynt yn berthnasol sydd gan gynlluniau llwybr fel sy'n ofynnol | 79.17 | 90 | Ambr / Amber | ↓ | 90 | 78.26 | Isaf / Lower |
| 09) SCC/43a: % yr asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith | 76.29 | 85 | Ambr / Amber | ↑ | 85 | 77.88 | - |
| 10) Presenoldeb – Cynradd (%) | 95.3 | 94.5 | Gwyrdd / Green | - | 94.5 | | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 11) Presenoldeb – Uwchradd (%) | - | 93.3 | - | - | 93.3 | | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 12) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – | 18.5 | 18.75 | Gwyrdd / Green | ↑ | 25 | | - |
| 13) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – | 155.5 | 70.5 | Coch / Red | ↓ | 94 | | - |
| 14) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+ | 56.9 | 56 | Gwyrdd / Green | ↑ | 56 | | - |
| 15) EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ryddhawyd o fewn 26 wythnos yn cynnwys eithriadau | - | - | - | - | | | - |
| 16) EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ryddhawyd o fewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau | - | - | - | - | | | - |
| 17) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | 216k | 209k | Gwyrdd / Green | → | 285k | | Isaf / Lower |
| 18) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y | 214k | 225k | Ambr / Amber | ↑ | 305k | | - |
| 19) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n | 0 | | - | → | | | - |
| 20) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol | 88.5 | 92 | Ambr / Amber | ↑ | 92 | | - |
| 21) Nifer cyfartalog y tasgau atgyweirio tai a gwblhawyd fesul gweithiwr, fesul diwrnod | 3.2 | 6 | Coch / Red | ↑ | 6 | | - |
| 22) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel | 71.8 | 75 | Ambr / Amber | ↑ | 75 | | - |
| 23) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | 35.2 | 25 | Coch / Red | ↑ | 25 | | - |
| 24) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra | 96.6 | 94 | Gwyrdd / Green | - | 95 | 96.3 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 25) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt | 99 | 94 | Gwyrdd / Green | - | 95 | 95.9 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 26) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | 58.8 | 58 | Gwyrdd / Green | ↓ | 58 | 55.2 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 27) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi | 21.6 | 40 | Gwyrdd / Green | ↑ | 41 | 43.2 | Isaf / Lower |
| 28) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) | - | - | - | - | | | THS/012 -Isaf / Lower |
| 29) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth | 95k | 60k | Gwyrdd / Green | ↑ | 85k | 144k | - |
| 30) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | 324k | 383k | Coch / Red | ↓ | 540k | 531k | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 31) Nifer y prentisiaethau newydd (Chwarter 2) | - | - | - | - | | | - |
| 32) Rhaglen Gofal Cymdeithasol Oedolion | - | - | Ambr / Amber | ↓ | | Gwyrdd / Green | - |
| 33) Prosiect Trawsnewid Hamdden | - | - | Gwyrdd / Green | → | | Gwyrdd / Green | - |
| 34) Prosiect Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid | - | - | Gwyrdd / Green | → | | - | - |
| 35) Y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion | - | - | Gwyrdd / Green | → | | Gwyrdd / Green | - |

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(Teitl yr Adroddiad: Cofrestr Risg Corfforaethol/Title of Report: Corporate Risk Register)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| [un neu fwy o /one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C] | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.<br><br>The matter concerns the business affairs of the Council. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd R Meirion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym O Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fis Mai, 2015 hyd at fis Mai, 2016. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Bev Symonds (Rheolwr Sgriwtini
Ffôn: 01248 752078
E-bost: BevSymonds@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
| --- | --- | --- | --- |
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith - Adolygiad** | | | |
| **14 Mawrth 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Adroddiad Monitro Refeniw CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf CH3 2015/16 | Monitro perfformiad | |
| | Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Monitro perfformiad | |
| | Dogfen Cyflawni Blynyddol | Sgriwtini cyn pendrfyniad | |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini: Rheoli Dyledion – Adroddiad Terfynol ac argymhellion | Adolygiad Sgriwtini/Gwerth ychwanegol | |
| | Paneli Canlyniad Sgriwtini Newydd : Diogelu Corfforaethol, Gofalwyr Anffurfiol a Gosod Tai'r Awdurdod Lleol-sgôp ac cylch gorchwyl/ aelodaeth | Sgriwtini i gymeradwyo ac i symud ymlaen angen enwebu aelodaeth. | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |
| **11 Ebrill 2016** | Gwasanaethau Anableddau Dysgu – trawsnewid | Sgriwtini o drefniadau cyfredol | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Trefniadau Ôl-ofal (Gwasanaethau Plant) | Sgriwtini o drefniadau cyfredol | |
| | Blaen Raglen Waith | Trefniadau sgriwtini effeithiol | |
| | | | |